

ECO'R WYDDFA

Rhif 121

NADOLIG 1986 IONAWR 1987

Pris 20c



DATHLU'R NADOLIG GŴYL YR IESU



Plant Ysgol Gynradd Bethel sy'n dathlu'r Nadolig ar ein rhan eleni. Cynhaliwyd y Cyngerdd Nadolig nos Fercher, Rhagfyr 17eg, ac yr oedd holl blant yr ysgol yn cymryd rhan. Uchod mae rhai o'r plant lleiaf yn cofio mai oherwydd geni'r Iesu y mae gennym i gyd achos i ddathlu heddiw.

GŴYL Y TEGANAU



Drama'r teganau sy'n cael ei chyflwyno yma gan aelodau eraill o Ysgol Gynradd Bethel (Lluniau: Islwyn Jones)

GŴYL Y RHOI

Anwyl Sion Corn,

Plis,

plis plis newch chi ddwad
a Trefnydd Trefnydd
Trefnydd Plygu i papur
Eco Wyddfa. Ma dad yn
deud na dyna sydd isio.
Dws gyno ni ddim un a mi
fasa ni yn licio cael un.
Dim ond un waith bob mis
sydd isio gweithio. Diolch
yn fawr iawn Sion Corn.

Swsus gan

Ladi
Xxxx

Mae mam yn deud fudd y
muns peis ar burdd yn cefn.

Tybed, tybed oes yna Sion Corn rywle'n y fro sy'n fodlon ateb y llythyr a rhoi
ychydig oriau bob mis i helpu'r "Eco".

GŴYL Y DERBYN



Annwen Owen o Fryn Moelyn, Llanrug yn wên i gyd oherwydd iddi ennill
toreth o anrhegion mewn cystadleuaeth ar "Raglen Hywel Gwynfryn" a
deledwyd yn ddiweddar o Theatr Seilo, Caernarfon.

CYFLE I ENNILL
TELEDU LLIW DRWY
ATEB HOLIADUR YN

SBEC
BIO

PLYGU'R ECO
RHIFYN
CHWEFROR 1987
nos lau
Ionawr 29ain am 6.00
o'r gloch ym
MHENISARWAUN

ECO'R WYDDFA

RHIF 121
NADOLIG 1986
IONAWR 1987

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL AC ERTHYGLAU: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhyallt, Llanrug. (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Peny Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glaraon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrig-y-drudion, Nant Peris. (871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9 Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU:

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
IONAWR 29ain
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
IONAWR 20ed
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

APÊL I "APÊL I SGANIWR" YMATEB Y WAUNFAWR

Annwyl Olygydd,
Fel Cadeirydd Cyngor Cymuned
Waunfawr a hefyd aelod o Bwyllgor
Apêl Sganiwr Arfon, carwn gywiro
daliadau y Parch John Morris yn eich
rhifyn diwethaf.

Y rheswm na wnaeth Cyngor
Cymuned y Waunfawr glustnodi arian i
Apêl y Sganiwr oedd, fod yr ardal, tua 6
mis yn ôl, ar gais y Cyngor Cymuned
wedi sefydlu Pwyllgor Apêl i'r pentref.

Rwyf yn digwydd bod yn aelod o'r
Pwyllgor gweithgar yma, sydd yn
cynnwys dau aelod o bob mudiad sydd
yn y pentref. Y nod i'r ardal oedd £2,200
a charwn dynnu sylw y Parchedig John
Morris fod £2,000 wedi mynd i Fangor
yn barod i ennill elw i'r Apêl.

Pe bai y Parch John Morris wedi
cysylltu â chlerc y Cyngor, i gael
manylion o'r cofnodion cywir, teimlad y
Cyngor oedd y buasem yn cadw golwg ar
y sefyllfa a rhannu arian i'r mudiadau
oedd yn gweithio ar ran y pentref. Hefyd
ni chofnodwyd y dylai y Llywodraeth
dalu am y peiriant.

Rhaid canmol ardal y Waun yn ystod y
7 mlynedd ddiwethaf, lle maent wedi
cyfrannu £13,000 at adeiladu Canolfan
i'r pentref. Braint yw cofnodi fod y
Pwyllgor wedi clirio dyled yr adeilad, ac
wedi gwario swm sylweddol eto i sicrhau
llenni ar y llwyfan, ac yn trefnu
gweithgareddau cyson, i gadw'r lle mewn
llawn ddefnydd.

Mae'r pwyllgor eto yn paratoi i
adeiladu estyniad i'r Ganolfan, fydd yn
galw am oddeutu £10,000 arall yn ystod
y 5 mlynedd nesaf.

Diolch i ieuencid y pentref am wthio
gwely o'r Waun i Ysbyty Gwynedd ac
rydym yn eu llongyfarch am hel £500
tuag at yr Apêl.

Felly diolch i bawb a gyfrannod mor
hael, daliwch i'n cynorthwyo os y
medrwyh, mae cyfle yn parhau o hyd.

Gofid i mi oedd gweld beirniadu
Cyngor ardal mor hael a gweithgar yn y
wasg. Rwyf yn erfyn ar y Parchedig John

Morris i roi ei amser rhydd tu ôl i ymgais
Llanrug. Yn fy marn i mae beirniadu yn y
wasg yn siwr o greu cancr yn llwyddiant
ein hymgais, ac efallai yn llwyddiant y
gorlan grefyddol.

Gyda chariad brawdol tuag at y
Sganiwr.

Yr eiddoch,
Gwilym Owen Williams.
Fferm Bod Hyfryd,
Waunfawr.
2.12.86

Annwyl Syr,
Fel aelod o Gyngor Cymuned
Waunfawr, gofid imi oedd darllen llythyr
y Parchedig John Morris, Llanrug. Nid
gofid am benderfyniad y Cyngor, ond
gofid am y rheswm nad oedd John
Morris wedi cael ei ffeithiau yn gywir.

Cyn barnu Cyngor Cymuned
Waunfawr mor llym, dyma'r ffeithiau:
1. Galwodd y Cyngor Bwyllgor agored i
benodi pwyllgor Sganydd.

2) Mae rhai o aelodau'r Cyngor yn
eistedd ar y pwyllgor yma.

3) Nod Waunfawr oedd £2,200, tua £3 y
pen.

4) Mae'r cyfanswm yma yn barod i
law, a gweithgareddau eraill ar y
gweill.

5) Anodd meddwl beth fydd y casgliad
terfynol.

Dymunaf atgoffa John Morris fod
ardal Waunfawr yn barod wedi casglu
£13,000.00 ar gyfer y Ganolfan.
Byddwn ar ofyn yr ardal eto yn y dyfodol
agos gan fod ychwanegiad at y Ganolfan
yn barod yn disgwyl bendith cynllunio.
Wrth ddarllen cofnodion ein Cyngor,
heb os, byddai John Morris yn nodi mor
hael yr ydym yn cyfrannu at achosion da.

Gobeithio syr, ar ôl darllen yr uchod,
y sylweddolwch fod ardal Waunfawr
wedi gwneud, ac yn wir, yn dal i
ymdrechu yn dda. Tybed mai gwell
fyddai i chwi, yn lle barnu Waunfawr,
roddi eich amser i gryfhau ymdrech
Llanrug.

Lleufer O Pritchard

CÂN I GYMRU

Gwerin Tai'r Felin, Gwlad a Gorllewin (!), Roc a rôl nwyfus
neu'r Felan fwythus . . . Beth bynnag fo'ch 'forte' mae trefn-
wyr y gystadleuaeth 'Cân i Gymru' yn galw arnoch chi gyfan-
soddwyr i anfon eich cynhyrchion iddynt rhag blaen.

Cwmni annibynnol, Teledu'r Tir Glas, sydd yn trefnu'r gystadleuaeth eleni
a'r dyddiad cau yw Ionawr 20 felly os
am roi cynnig ar ennill y wobr gyntaf
o £500 a thlws peidiwch ag ymdroi,
anfonwch am ffurflen gystadlu
ganddynt yn awr!

Gellwch anfon eich cân i'r gystad-
leuaeth naill ai ar ffurf caset neu
lawysgrif neu'r ddau ac mae croeso i
chi anfon mwy nag un gân os
dymunwch.

O blith y cynhyrchion a dderbyni-
r bydd panel o feirniad yn dewis wyth
cân i'w perfformio ar y rhaglen
deledu 'Cân i Gymru' a ddarlledir nos
Sul, Mawrth 15, 1987. Ac mae Tir Glas
hefyd yn ystyried y posibilrwydd o
ryddhau record a chaset o'r wyth cân
terfynol hyn. Bydd y gân fuddugol yn
mynd ymlaen i gynrychioli Cymru
yng nghystadleuaeth Celtavision yng
Nghil-airne yn Iwerddon ym mis Mai.

Yn wahanol i'r gorffennol bydd
canwr neu gantores neu grŵp
gwahanol yn perfformio pob un o'r
wyth cân a gall y cyfansoddwr

awgrymu enw perfformiwr neu berf-
formwyr i ddehongli eu cân. Os yw'r
cyfansoddwr yn digwydd bod yn
ganwr hefyd mae croeso iddo ef neu
hi awgrymu ei (h)enw ei hun!

Bydd y drefn o feirniadu'r gystad-
leuaeth yn wahanol eleni hefyd gyda
phump panel yn cynnwys cerddorion
a chantorion yn ogystal ag aelodau
o'r cyhoedd o bob oed yn beirniadu
ar y noson. Meddai Huw Jones,
Cynhyrchydd y rhaglen: "Rydym yn
awyddus i gael cynrychiolaeth mor
eang ag sy'n bosibl o ran chwaeth
gerddorol. Does dim cyfyngiad o
gwbl ar ba fath o gân y gellir ei chyfl-
wyno."

Felly, gyfansoddwyr Cymru, os oes
cân yn corddi yn y bol, alaw yn
awchio am weld golau dydd,
anfonwch yn syth bin am ffurflen
gystadlu at Teledu'r Tir Glas,
Maesincla, Caernarfon. Ffôn: (0286)
5766. A hwyl fawr ar y cyfansoddi!

APÊL I'R GOHEBWYR PENTREFI

PEIDIWCH os gwelwch yn dda ac anfon lluniau Nadoligaidd eu
naws i'w cyhoeddi yn y rhifyn nesaf. Cofiwch y bydd bron yn
fis Chwefror erbyn y daw'r rhifyn nesaf o'r "Eco" o'r Wasg.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL BRO
MADOG 1987

CYFIAWNDER I'R DYSGWYR!

Er mwyn sicrhau bod pob safon o
ddysgwyr yn gallu cystadlu o fewn ei
brofiad a'i wybodaeth o'r iaith, pen-
derfynodd Pwyllgor y Dysgwyr, Eis-
teddfod Bro Madog gymryd y cam
(dadleuol, o bosibl) o safoni dysg-
wyr. Teimlai rhai nad oedd diben
iddynt gystadlu yn erbyn rhai rhugl.
Mewn ymgais i unioni'r cam, pender-
fynwyd graddoli gwaith llwyfan ac
ysgrifenedig fel a ganlyn:-

Safon 1: Dysgwyr nad ydynt wedi
derbyn may na 50 o oriau o hyfford-
diant swyddogol mewn dosbar-
thiadau ail iaith.

Safon 2: Dysgwyr nad ydynt wedi
derbyn mwy na 100 o oriau o hyf-
forddiant swyddogol mewn dosbar-
thiadau ail iaith.

Safon 3: Dysgwyr a fagwyd ar ael-
wyd ddi-Gymraeg ac sydd yn dysgu
neu wedi dysgu'r Gymraeg fel ail
iaith mewn ysgol neu goleg neu
drwy ddilyn cwrs arbennig.

Hyderir y bydd y dysgwyr yn fwy
parod i ymgeisio o dan yr amodau
newydd hyn. Dyma rai cystadlaethau
a restrir:-

Deialog: Cystadleuaeth ar gyfer
dysgwyr Safon 2. 'Mewn Ystafell
Aros'. Caniateir rhwng 3 a 5 munud.
Gwobr: £30 (Rhodd Cangen Nantcol
o Ferched y Wawr)

Monolog: Cystadleuaeth ar gyfer
dysgwyr Safon 3. Person yn sôn am
ei hoff anifail neu ddigwyddiad cyffr-
ous. Heb fod yn hwy na 4 munud.
Gwobr: £25 (Rhodd Miss Enid Owen,
Blaenddôl, Porthmadog)

Noson Lawen: Cystadleuaeth
agored ar gyfer pob safon o ddysg-
wyr. Heb fod yn hwy nag ugain
munud.

Gwobr: 1. £70; 2. £40; 3. £20 (Y
gwobrau o Gronfa Goffa Frances
Tecwyn Lloyd)

Disgrifiad o lun: Safon 1. Dylid anfon
copi o'r llun gyda'r gwaith
ysgrifenedig. Dim mwy na 150 o
eiriau.

Gwobr: £15 (Rhodd teulu'r 'Perthi',
Cricieth)

Dyddiadur wythnos: Safon 2. Gwir
neu ddychmygol. 200-250 o eiriau.
Gwobr: £20 (Cronfa Goffa Frances
Tecwyn Lloyd)

Taflen Newyddion neu Gylchlythyr:
Safon 3: I ddysgwyr yr ardal. Gwaith
grŵp neu unigolyn.

Gwobr: £30 (Rhodd Cymdeithas
Cymry Dineidyn)

Gwyddys hefyd am yr angen am fwy
o adnoddau ar gyfer dysgwyr. Felly,
cynhwysir cystadlaethau paratoi
deunydd a chynigir gwobrau hael
iawn, e.e.

Nofel seiliedig ar unrhyw ddigwyd-
diant yn hanes Cymru.

Dylid nodi ar gyfer pa safon o
ddysgwyr y darperir y gwaith.

Gwobr: £150 (£75 Cronfa Goffa
Frances Tecwyn Lloyd; £75 Rhodd
Cylch Llennyddol Llŷn)

Cyfres o 6 o storïau serch gwreiddiol.
Addas ar gyfer Safon 2.

Gwobr: £60 (Rhodd Cymdeithas y
Dysgwyr, Blaenau Ffestiniog)

Gellir prynu copïau cyflawn o'r
Rhestr Testunau o Swyddfa'r Eis-
teddfod (Pris £2.00 yn cynnwys
cludiant)

Bwriwch ati y Gaeaf hwn!



CARTŴN "SION BLEWYN COCH"

Cymerwch un o eilunod llyfr mwyaf poblogaidd plant o'r Tridegau a seren ifanc ddisgleiriaf y llwyfan heddiw a chyfunwch y ddau. Y canlyniad yw ffilm gartŵn o'r safon uchaf a welir ar S4C ar Ddydd Nadolig.

Bu **Siôn Blewyn Coch** o 'Lyfr Mawr y Plant' gan J O Williams a Jennie Thomas yn un o arwyr plant ar hyd y blynyddoedd. Ac ar gyfer y ffilm 22 munud o hyd, cenir y gân agoriadol gan lais yr wythdegau, **Aled Jones**.

Bydd y ffilm yn bluen arall yn het Cwmni Bywddarlunio Siriol, gwneuthurwyr 'Wil Cwac Cwac' a 'Superted'. Ac yr un mor sicr bydd cân Aled, yn Gymraeg ac yn Saesneg ar record a ryddheir gan gwmni EMI, yn sicr o fod yn un o uchelbwyntiau cerddorol yr Wyl.

Ystyrir Siriol erbyn hyn fel cwmni o safon uchel rhyngwladol a enillodd wobrau am ei ddawn bywddarlunio ar ddwy ochr i Fôr Iwerydd. Cymni bywddarlunio Prydeinig cyntaf i werthu ei gynnyrch i Gwmni Walt Disney. Ysgrifennwyd y sgript, wedi'i seilio ar gymeriadau 'Llyfr Mawr y Plant' gan Robin Lyons. Ef hefyd yw'r cynhyrchydd. Y cyfarwyddwr a'r cynllunydd yw Dave Edwards. Eisoes gwerthwyd y ffilm i wledydd tramor, gan gynnwys Ffrainc, Seland Newydd, Y Ffindir, Yr Isalmaen, Iwerddon ac Awstralia.

Mae stori'r ffilm yn troi o gwmpas ymdrechion Siôn Blewyn Coch, yr hen lwynog cyfrwys, i ddwyn twrci oddi ar Eban Jones, y ffermwr.

Cyfansoddwyd y gân agoriadol gan Chris Stuart ac mae'r record ar gael naill ai ar ddisciau 7 modfedd neu 12 modfedd.

Ac am y tro cyntaf erioed gwelir logo enwog HMV, 'Llais ei Feistr', gyda'r ci bach a'r corn, yn Gymraeg.

Gyda 'Siôn Blewyn Coch' bydd Aled, y llanc talentus 15eg oed o Fôn yn gobeithio chwahanegu disc aur at ei gasgliad rhyfeddol o lwyddiannau. Mae'r tair record hir a wnaeth i'r BBC wedi ennill disciau aur ac fe lwyddodd i gyrraedd y siartiau recordiau Saesneg. Flwyddyn yn ôl dringodd ei record sengl, 'Walking in the Air' i'r pumed safle.

Yn ogystal ag ymddangos yn Gymraeg ar Ddydd Nadolig bydd y ffilm gartŵn gyda'r teitl 'A Winter Story' i'w gweld hefyd yn Saesneg ar nos Lun, Rhagfyr 29 ar S4C a Channel 4.

Bydd Hughes a'i Fab, Cwmni Cyhoeddi S4C, yn cyhoeddi llyfr newydd 'Siôn Blewyn Coch' (pris £2.95)

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

NADOLIG
LLAWEN I
CHWI OLL

Cewch Flwyddyn
Newydd Dda ar ein
Gwasanaethau Bysus
Newydd

CYSTADLEUAETH Y NADOLIG £5 ADNABOD YR "ECO"

O WOBR



Fu'r llun anghyffredin hwn erioed yn yr "Eco" o'r blaen! Ond tybed? Mae'r llun wedi ei ffurfio o nifer o wahanol luniau a ymddangosodd ar dudalen flaen yr "Eco" yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Eich gwaith chi yw enwi pa ddigwyddiadau sy'n cael eu cofnodi yma.

Anfonwch eich atebion i'r Golygydd, "Bron-y-Nant", Llanrug erbyn **Ionawr 20fed**. Yr enw cyntaf aethall o'r het gyda'r atebion cywir fydd yn ennill £5.

DIGWYDDIADAU'R FLWYDDYN YM MRO'R ECO

Ydych chi'n gwybod...

1. Pa Glwb Ieuencid a sefydlwyd ar ôl saib o dair blynedd?
2. Pwy gafodd ei alw i garfan Cymru yn Saudi Arabia?
3. Pwy oedd Rhys a fu ar daith yn y gofod?
4. Pwy ddaeth ag eliffantod i Ysgol Brynrefail?
5. I ba dîm o'r fro yr oedd Dafydd Wigley braidd yn anfodlon cyflwyno tarian iddynt?
6. Beth oedd y pot coffi a ddaeth i Lanberis?
7. Pa ras oedd "fel rhedeg ras fynydd ar gôl tar"?
8. "Llonyddwch lle be 34". Eglurwch.
9. "Dau yn unig oedd yn y rās - ond roedd hi'n rās glasur." Pa un?
10. "Roedd rhannau o'r ffilm yn ddychrynlyd iawn". Pa ffilm? Beth oedd yr achlysur?

Atebion ar dudalen 23.

Deddf Iaith Newydd

Cymdeithas yr Iaith

Galwn am DDEDDF IAITH NEWYDD i sicrhau fod hawl gan bobl Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd cyhoeddus Cymru.

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi profi bod Deddf Iaith 1967 yn annigonol trwy weithredu yn erbyn banciau, cymdeithasau adeiladu a siopau i ddangos nad oes ganddynt bolisi dwyieithog effeithiol.

Rydym ni bellach yn casglu tystiolaeth o'r angen am Ddeddf newydd gynhwysfawr. Mae'r Swyddfa Gymraeg hefyd yn casglu tystiolaeth ac yn ymgynghori £2000 o gyrrff yng Nghymru yn gofyn eu barn am Ddeddf Iaith Newydd.

am yr holl anhawsterau sydd yn codi yn eich bywyd chi oherwydd diffygion Deddf Iaith 1967. Oes rhywun wedi gwrthod eich siac Cymraeg, wedi methu â chael ffurflen Cymraeg neu wasanaeth Cymraeg?

Beth bynnag yw natur eich cŵyn, rhwydwyd i Nicholas Edwards fel nad yw'r Swyddfa Gymraeg yn gallu dweud nad yw pobl Cymru am gael Deddf Iaith newydd.

Ysgrifennwch heddiw at:

Yr Ysgrifennydd Gwladol
Y Swyddfa Gymraeg
Parc Cathays
Caerdydd
De Morgannwg

Arwyddwch y ddeiseb yn gelw am Ddeddf Iaith Newydd a chasglwch enwau eich cyfeillion!

WYT TI WEDI
ARWYDDO'R
DDEISEB

Am fwy o fanylion, cysyllter â:

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
5, Maes Albert
Aberystwyth
Dyfed
Ffôn: (0970) 4501

Cymdeithas yr Iaith



Mae'n amlwg wrth edrych ar y rhestr bod nifer o'r cyrrff hyn yn mynd i fod yn eflyddus i'r syniad. Mae'n holl bwysig felly ein bod ni, boed yn unigolion neu gymdeithasau, yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol gyda thystiolaeth am yr angen am Ddeddf Iaith Newydd. Soniwch

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

Aled Jones

Peiriannydd

Gwres Canolog

a Phlymio

4 Bryn Eglwys

Penisarwaun

Ffôn: Llanberis

871047



PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN-Y-COED: Bydd yr ysgol yn cau bawn Gwener, Rhagfyr 19 am 1.00pm ac yn ail ddechrau ddydd Llun, Ionawr 5ed, 1987. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi blant.

CAPEL BOSRA: Bydd plant yr Ysgol Sul yn cynnal Gwasanaeth Nadolig am 10.00am Rhagfyr 21ain. Croeso cynnes i bawb. Bydd parti Nadolig iddynt hwy a phlant yr Eglwys 'bnawn Llun, Rhagfyr 22ain - bydd - fe fydd Siôn Corn yn siŵr o alw.

EGLWYS SANTES HELEN: Gwasanaethau'r dydd Sul, 21 o Ragfyr:

10.30am: Cymun Bendigaid
2.00pm Gwasanaeth Nadolig Naw Llith a Charol;

Noswyl Nadolig am 11.30pm: Cymun Nendigaid.

Dymuna'r Swyddogion Nadolig Llawen a Blwyddyn Nweydd Dda i bawb.

CAPEL GLASGOED: Bawn Sul, Rhagfyr 7fed cyflwynwyd anrheg i Mrs Idris Owen, fel gwerthfawrogiad o'i swydd fel organyddes am 38 mlynedd, ac hefyd i Mr Idris Owen am fod yn godwr canu.

ADRAN BENTREF YR URDD: Tachwedd 24ain, cawsom groeso mawr gan Adran Bentref PenLlyn, yng Nghwm-y-Glo. Treuliwyd noson ddifyr yng nghwmni Richard Llwyd Jones o Fethel - cafwyd Cwis a'r sgôr yn gyfartal ar y diwedd. Diolch yn fawr i chi blant Cwm-y-Glo a gobeithio y cawn ni eich cwmni yn fuan yn 1987.

Yn addas iawn a ninnau ar drothwy'r Nadolig, "Symbolau'r Nadolig" oedd testun Miss Phyllis Ellis, nos Fawrth, Tachwedd 25ain. Daeth â nifer o luniau'r Nadolig mewn gwahanol wledydd a dangosodd thus a myrr i'r plant. Rhoddwyd tasg fechan i'r plant - i lunio cerdyn Nadolig ar gyfer y flwyddyn 2,000 - erbyn Rhagfyr 9fed, er mwyn iddynt gael eu beirniadu'n deg gan Mrs Pat Jones, Brynrefail. Diolch yn fawr iawn Phyllis am noson ddifyr ac addysgiadol.

Gwaith Llaw Nadolig gyda Pat ac Anita Jones, Brynrefail gafwyd ar Ragfyr 9fed. Cafodd pob plentyn gyfle i wneud addurn bwrdd deniadol. Diolch yn fawr iawn i Pat ac Anita am noson ddiddorol.

Rhagfyr 16, yn Neuadd yr Eglwys am 6.00pm bydd Parti Nadolig yr Urdd.

PANTOMEIM: Mae trefniadau wedu eu gwneud eisoes i ymweld â Sioe Nadolig JIM CRO CRYSTYN yn Theatr Gwynedd, NOS LUN, RHAGFYR 29ain, Pris £2.10.

EISTEDDFOD BENTREF: Nos Iau, Ionawr 15, yn Neuadd yr Eglwys am 6.00 cynhelir "Sêl Ionawr" er budd cyllid Eisteddfod Bentref. Taer erfynnir am eich cefnogaeth. Oedolion 30c. Plant 10c wrth y drws.

APÊL Y SGANIWR: Balch ydym o gyhoeddi fod dros £1,000 yn y Gronfa yn barod, ac os oes rhywun yn dymuno anfon rhoddion, a fuasech garediced â'u danfon i Mr Larsen, Llygad yr Haul. Y nôd yw £1,300. Diolch yn fawr.

CLWB CANT: Nos Iau, Tachwedd 27ain, am 6.00pm yn Neuadd yr Eglwys, daeth Mr Eurwyn Jones, Camelot i ddangos fideo o wythnos Garnifal 1986. Yr oedd y plant a'r oedolion wedi mwynhau eu hunain yn arw, diolch yn fawr iawn Eurwyn, bydd ambell un ohonom yn wylidwrs o'r camera y flwyddyn nesaf! Unwaith eto, diolch i'r ffyddloniaid am ein cefnogi.

Nos Wener, Rhagfyr 19, bydd criw o garolwyr yn dod o gwmpas y pentref o Tan Gaer i'r Waun, a nos Lun, Rhagfyr 22 o Fryn Eglwys i Perthi. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni.

Ionawr 26, yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 dehlir Noson Santes

Dwynwen. Bydd cystadleuthau gwneud cerdyn, llun, teisen, llythyr cariad a gwisg ffansi.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y Clwb Cant, ynghyd â'r gweithgareddau misol, yn 1986 - a gobeithir cael yr un gefnogaeth ym 1987.

GWELLA: Dymunwn adferiad iechyd buan i Mrs Kate Jones, Mrs Jones, Cae Corniog a Kathy Lloyd wedi triniaeth yn yr ysbyty. A chwithau sy'n sâl yn y pentref, brysiwch wella a gobeithio y byddwch i gyd yn mwynhau eich Nadolig.

CYDYMDEIMLO: A ninnau mor agos i'r Nadolig, drwg gennym glywed am brofedigaeth sydyn Jean a Gwynfor a'r teulu, Tai Croesion. Bu farw tad Jean, o Bod Eifl, Pont Rhythallt, Llanrug, yn 75 mlwydd oed. Roedd pawb yn adnabod Mr Albert Richardson, fel gŵr addfwyn a bonheddig. Ein cydymdeimlad llwyraf â Mrs Richardson, Jean a Joyce a'r cysylltiadau oll.

DIOLCH: Dymuna Jean Roberts a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth lem.

LLONGYFARCHIADAU: I Mr a Mrs Wyn Roberts, Racca, ar ddod yn nain a taid i Michael Wyn, mab bychan Linda.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Dafydd, Bryntirion, ar ddod yn gyntaf ar adrodd yn Steddfod Chwilog.



"TYRD AWEL FWYN" CAROL NADOLIG

Ar y dôn "Berwyn" - Caradog Roberts. Rhif 719 yn yr Atodiad.

Tyrd awel fwyn, O! Chwal pob cwmwl ymaith,
Dangos y Seren wiw.
Y Seren Fore sy'n disgleirio Gobaith
Tyrd awel fwyn, wynt Duw.

Tyrd awel fwyn, rho olau ar ein llwybrau,
Chwal ymaith ofn a braw.
Cawn weld y Seren sydd am arwain pobloedd,
Tyrd awel fwyn o draw.

Tyrd awel fwyn, a' chwal pob cwmwl rhagom,
Cawn weled Seren Duw.
Hardd Seren Fore sydd am droi'r tywyllwch
Yn olau eglur, gwiw.

Tyrd awel fwyn, gad i ni weld y Gallu
Tu ôl i'r cwmwl du.
Y Seren wen a rydd i'n Nerth ac Egni
Tyrd awel fwyn a'th si!

Tyrd awel fwyn, gad i ni weld y Golau
Ddengys y ffordd yn glir -
At Gariad Tad sy'n caru pawb ymhobman,
Tyrd awel fwyn trwy'r tir.

Dilys Baylis
Llanberis

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Pat Owen a phawb yn

SIOP GRON

PENISARWAUN

A SWYDDFA'R POST

Ffôn: Llanberis 871272

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn



Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd i chi oll



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth



TAC SIS WEBB

22 BRYNTIRION

PENISARWAUN

Ffôn:
Llanberis

870145

Gwasanaeth 24 awr - pell ac agos

Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd

Gwaith Contract



DERWYN HUGHES

Treflys

PENISARWAUN

Ffôn Llanberis

870945

Nadolig Llawen iawn i bawb



Am
nenfydau
a waliau
siapus

Antex

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYN A KATHLEEN WILLIAMS



**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG Ffôn: 77482**

Hefyd yn
**TANRALLT, CWM-Y-GLO,
Ffôn: Llanberis 870793**

Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau
Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed
Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**RHIANNON MORRIS
a holl staff**

BWSIAU ARFON LLANRUG



Ffôn: Caernarfon 5175

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

RICHARD A MEIRWEN THOMAS

Y FOELAS LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 4652

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth

AVRIL

**4 TAI HERMON
LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon
5043**

**FFRWYTHAU A
LLYSIAU AT EICH
DRWS**

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i chwi oll oddi
wrth

**David a
Bernadette
JONES**

**SNOWDON STORES
PONTRHYTHALLT
LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 4472
PAPURAU NEWYDD
A BWYDYDD**



Pa well ddechrau i


1987 na ...

PEUGEOT 205

neu

PEUGEOT 309

JOHN TREVOR



**GAREJ HAFOD
LLANRUG**



Ffôn: Caernarfon 3372

**NADOLIG
LLAWEN
A
BLWYDDYN
NEWYDD
DDA
I BAWB**



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth


JONES A PITTS

PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob math o
waith metel



**GWAITH BRYN AFON
LLANRUG**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i
bawb oddi wrth

LYNWOOD JOINERY

**BRYN AFON
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 77422
Portdinorwig 670191

FFENESTRI . DRYSAU . GRISIAU
. GATIAU . ARBENIGWYR
GWYDR DWBL



CYFARCHION Y TYMOR
A
DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth

NEIL, IRIS, MARGARET AC OLWEN

y Siop Sglodion

**Pontrhythallt
Llanrug**

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

J.H. a H. JORDAN & SON GARAGE SNOWDON LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 3056



Nadolig llawen a blywddyn
newydd dda oddi wrth bawb
yn y garej.

Gobeithio y cawn eich
cefnogaeth eto ym 1987.

Gwerthu ceir newydd ac ail-law

Trin cyrff - Sythu Chasis - Spreio - Unrhyw Waith
Mecanyddol - Atgyweirio - MOT - Gwasanaeth Torri
Lawr 24 awr

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH



BAWB YN

Y CO-OP LLANRUG


Ffôn: CAERNARFON 2937

Mae yna bresant Nadolig i bawb o'r teulu -
dillad dynion, merched a phlant, teganau,
slippars, blancedi, llyfrau, carpedi, bwydydd
a diodydd.

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN 1986
DYMUNIADAU GORAU AM 1987



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth



Caernarfon Industrial Supplies

BRYNAFON, LLANRUG, Ffôn: Caernarfon 4448

Hoelion, Sgriws, Bolttiau, "Fasteners",
Sgidiau, Wellingtons, Cotiau gwarchod a
hamdden, oll am Brisiau gyda'r rhataf yn

Discownt o y fro.
25% ar Dŵls



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

TONY, BERYL a STAFF

Tafarn

PENBONT LLANRUG



Fe rown ichi ein croeso
arferol trwy gydol 1987

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid a'n
cyfeillion oll oddi wrth

R. Hughes Jones a'r Mab

SIOP GIG
BRYN AFON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3188 a 5190

Arbenigwyr ar gig i'r rhewgell



CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

GLYN ROBERTS A'I FAB DYNION GLO



3 a 4 TAI HERMON, LLANRUG

Ffôn: 5043 a 2125

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Lwyddiannus
i bawb oddi wrth

ELWYN HUGHES CONTRACTOR PENNANT LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 2156



DIOLCHWN YN GAREDIG IAWN
AM EICH CEFNOGAETH
FLWYDDYN AR ÔL BLWYDDYN
A DYMUNWN FEL TEULU
NADOLIG LLAWEN I CHWI OLL A
DYMUNIADAU GORAU AM Y
FLWYDDYN NEWYDD



SIOP a MODURDY GROESLON MARC LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2445



Nadolig Llawen
a
Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

TECWYN JONES CAE RHOS, LLANRUG

Ymgymmerwr Cludo
Cyflenwr Tywod,
Gro ac ati

Ffôn: Caernarfon 3547

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

SIOP
DRIN GWALLT

Elaine Jones

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2023

DYMUNA

WIL a MYRA PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG

Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN
A

BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL



NADOLIG
LLAWEN
A
BLWYDDYN
NEWYDD
DDA



oddi wrth

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Sulwen, Dafydd ac
Alison Ellis

**CAFFI
CEFN
COED**

(ger Ysgol Brynrefail)
LLANRUG

ORIAU AGOR: 8.15am - 9.00pm
ac eithrio dydd Llun a dydd Iau

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
BERYL a GWEN

**LLYTHYRDY
LLANRUG**



Ffôn: Caernarfon 2422

**CYFARCHION NADOLIG
LLANRUG**

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA

oddi wrth

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd
Ffordd
Glanmoelyn
Llanrug
Ffoniwch



CAERNARFON 3674

i fod ar eich dela dros yr Ŵyl

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Simneau glân am bris rhesymol gan



G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG

Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir
peiriant sugno i lanhau Ffôn: Caernarfon 4781

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn siop

JOHN a ROBERTA GRIFFITH

Y STORFA
SGWÂR LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd
Archebion at eich drws.



Diolch i bawb am eich cefnogaeth
trwy gydol y flwyddyn

Merched ...
Dynion ...
Plant ...



I gael trin eich
gwallt yn eich
cartref cysylltwch â

SIAN

MAIRANNEDD
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon
5366

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i bawb

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH

WELDING &
FABRICATING

32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i Bawb

**EMYR
JONES**

PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI

GWAITH
INSIWLEIDDIO
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i
bawb

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA I BAWB

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR: Cafwyd cyfarfod o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr, nos lau 27ain o Dachwedd. Llywydd y noson oedd Miss Malan Roberts, Garreg Lwyd. Cyfarfod yn null Hawl i Holi a gafwyd. Holwr medrus y panel oedd Mr Iolo Huws Roberts, Waunfawr ac aelodau'r panel, gyda'u barn parod a difyr oedd, Mrs D Bayliss, Llanberis; Mrs Menna Williams, Fferm Minffordd; Mr Twrog Jones, Pros Kairon, Glanffynnon a Mr Oswald Davies, Rhyd y Delyn. Diolchwyd i'r holwr a'r panel gan Mrs Myfi Roberts. Paratowyd lluniaeth ysgafn gan Miss Meirwen Roberts, Ganllwyd a Mrs J Parry, Morannedd, a diolchodd Mrs Beryl Thomas, Gerallt iddynt. Bydd cyfarfod Carolau y Gymdeithas Lenyddol nos Sul, 21ain o Ragfyr am 5.30 o'r gloch yn Capel Mawr.

DYMUNA Mrs Ellen Williams, Moelwyn, Hafan Elan ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y blodau, cardiau a'r ranrhegion a dderbyniwodd, ac i bawb a ddaeth i ymweld â hi tra yn Ysbyty Gwynedd, a dymuna Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir â Mrs N Jones, Gorwel sydd wedi colli ei mam yn ddiweddar, sef Mrs A M Hughes, Bwthyn.

CYDYMDEIMLIR â theulu y diweddar Mr Tom Jones, 1 Glan Moelyn, Llanrug yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLAD: 'Rydym yn cydymdeimlo â Mr M Pritchard, Arwyn ar farwolaeth ei chwaer yn Harrogate.

CYDYMDEIMLO: Drwg gennym glywed am farwolaeth sydyn Mr Albert Richardson, Bod Eifl, Pontrhyallt. Ein cydymdeimlad llwyrâf â Mrs Richardson, Joyce, Jean a'u teuluoedd.

PROFEDIGAETH: Dydd Llun, Rhagfyr 8fed, cafwyd gwasanaeth angladdol Mrs Margaret Hughes, 20 Rhos Rug. Gwasanaethwyd gan y Parch John Morris. Cydymdeimlwn â'i phriod, Mr Bob Hughes, yn ogystal â Tommy Owen, Brynley, Wavell ac Arwyn.

CYFARCHION:

Dymuna Mrs Williams, Gweledfa, ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a'i chymdogion.

DYMUNIADAU GORAU am wellhad buan i Mrs Jane Williams, Bryn Eifion.

GWELLHAD: Mae Mrs Ellen Williams, 6 Hafan Elan wedi dychwelyd adref o Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y caiff wellhad buan.

PLAID CYMRU: Nos Fercher, Rhagfyr 3, cafodd aelodau'r gangen eu cinio Nadolig yn Nhŷ Bwyta Gwêl y Llyn, Llanberis, gyda Elfed Roberts, Trefnydd Plaid Cymru yn Arfon yn ŵr gwadd. Croesawodd Phyllis Ellis, Cadeirydd y Gangen y gŵr gwadd a'i briod i'n plith a chawsom annerchiad amserol ganddo. Arwel Jones oedd yn ein diddori a mawr yw ein diolch iddo am noson mor hwyliog. Balch oeddem o weld amryw o aelodau newydd i'r gangen wedi ymuno â ni. Anfonwyd cofion at aelodau oedd yn cwyno gyda dymuniadau da am adferiad iechyd buan. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Nan Humphreys a Mr a Mrs Taylor, Gwêl y Llyn. Yr enillwyd oedd 1. Mrs J Roberts, Gwyndy; 2. Goronwy Hughes, Eithinog; 3. Arwyn Roberts, Hafle.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Ionawr 14 yn Ysgol Gynradd Llanrug

ac edrychwn ymlaen at weld aelodau cangen Waunfawr yno hefyd. Y siaradwr gwadd fydd Dr Paul Nickson, a bydd yn anerch ar Newyn yn y Trydydd Byd.

Croeso i bawb i'r cyfarfod yma.

Ionawr 14: Mercher, Plaid Cymru Cangen Llanrug a'r Cylch a Changen Waunfawr. Annerchiad gan Dr Paul Nickson ar 'Newyn yn y Trydydd Byd', yn Ysgol Gynradd Llanrug, 7.30. Croeso i babw.

Chwefror 14: Cangen Llanrug a'r Cylch o Blaid Cymru yn ymweld â changen Waunfawr.

PRIODAS AUR: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Griff Orritt, 10 Stad Hafan Elan, ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.



Dathlu Priodas Aur

PRIODAS ARIAN: Llongyfarchiadu hefyd i Mr a Mrs Goronwy WILLIAMS, Llys Ifor, ar ddathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

SANTA 86

"Pa beth Nadolig yma
Fy annwyl Santa Clôs,
Sydd yn y sach i'w rhannu
Yn dawel bach trwy'r nos?"

Mae mil o drugareddau,
Teganau o bob lliw,
Yn fidios a chompiwtars
A wisgi rhag y fflw.

Yn ynys Môn rhaid dechrau
A thros y bont yr âf.
Rhyw ddau neu dri sydd yma
Mae'r gweddill yn dai haf.

Trwy Lanfair draw am Gaerwen
Mae'r caffi wedi cau,
A'i chael hi'n anodd rhannu
Tri mochyn bach rhwng dau.

Ac yna'n ôl i Arfon
Llanberis sydd i lawr.
Trên bach, canŵ a lego
I gynllun y Ddôl Fawr.

Rhoi tro a dringo'r Clegir
I'r Waen at Ddafydd dlawd.
Un botel bach, ac arni
"O'r Deri, Huw dy frawd."

I lawr am Dafydd Ellis
Ai tybed a fydd gwên,
Pan wêl ar droed y gwely
O'r Valley, Erolên?

Rhaid gwneud un alwad bwysig
I gartref Charles a Di,
A rhoi gweithredoedd Cymru
Yn hosan Willie'n slei.

Rhaid cofio am rhên Enoc
I hwn ni fynaf gam.
Rhoi goliwag mewn cesail
Fel un sydd ar bot jam.

Dê Cymru a ddaw nesaf
Pan ar fy ffordd yn ôl.
Pêl rygbi wrth y cannoedd
A biros i'r criw dôl.

I fyny'i Bryn Awelon,
Fydd yma fawr o gôst.
Rhyw ddeugain ceiniog cwta
Dros gowntar Magi Pôst.

Caf'sgoi hen dref Caerfyrddin
Dim angen dringo'r tô.
Mae pawb i lawr mewn buncer
Heb gorn, a'r drws ar glo.

Un ddol Gymreig sydd weddill
Fe gollais lebal hon.
Ai Meinir neu Angharad?
Does arni ond 'Hong Kong'.

Ac yna troi am adref
Mae bron yn fore bach
Y sled yn wag o'm cwmpas
A llipa yw fy sach.

A chwithau geirw ffyddlon
Hen Rwfws, Jo a Pal.
Daw deigrin bach i'm llygaid
O'ch gwerthu i Hal Al.

Af innau fel fy arfer
I fyny'i Wlad yr Iâ.
Efallai y dof eto
Os bydd na blant bach da.

Huw Thomas (Gwenallt)
Llanrug.



Anrhegu'r Parch Aled Williams ar ei ymadawiad â Llanrug i ardal Machynlleth.



Parti Nadolig Pensiynwyr Llanrug

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
bawb yn ...



CRIB COCH

Y SGWÂR, LLANRUG

Ffôn Caernarfon 76772

TRIN GWALLT I BAWB

O'R TEULU GAN JEN

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb
oddi wrth

SELWYN MORRIS

Adeiladwr a Threfnydd Angladdau

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2841

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (Caernarfon 3536)

DIOLCH: Dymuna Dilys a Bryn Griffiths, Delfryn, ddiolch o galon i'w perthnasau a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur eu priodas arian yn ddiweddar.



Dilys a Bryan Griffiths, Delfryn, ar achlysur eu priodas arian

CYDYMDEIMLO: Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Joan Dickerson, Cae Mawr, yng nghartref ei chyfnither yng Nghaernarfon.

GWELLHAD: Mae Mrs. Annie Owen, Homes, yn ei hôl yn ysbyty Llandudno. Gobeithiwn iddi gael dod adref erbyn y Nadolig.

Bu Margaret Atkinson, Cefn Cof, yn yr

ysbyty yn diweddar. Deallwn ei bod yn gwell.

CAROLAU NADOLIG: Cenir carolau Nadolig gyda Seindorf Llanrug ger coeden Nadolig y pentref nos Iau, Rhagfyr 18, am 6 yr hwyr. Dewch yn llw!

PARTI NADOLIG: Cynhelir parti Nadolig y pentref yng Nglangwna nos Wener, Rhagfyr 19, gydag adloniant gan Marc a Jane o Fae Colwyn. Tocynnau ar gael oddi wrth Deiniol Huws, Arwel Roberts, Clive James, Sion Atkinson ac Ifor Huws.

CYNLLUN LLEOL ARFON WLEDIG: Gellir gweld copi o'r cynllun uchod trwy gysylltu ag Eric Roberts, Gerallt, Erw Wen. Dylai pentrefwyr ddanfôn unrhyw sylwadau ar y cynllun i Gyngor Arfon erbyn 7fed Ionawr, 1987.

GWASANAETHAU'R CAPEL: Sul, 21 Rhagfyr: Ysgol Sul am 2. Gwasanaeth y plant a charolau am 5.30

Sul, 28 Rhagfyr: Mr Aled Hughes am 2. Dim Ysgol Sul.

Sul, 4 Ionawr: Parch William Jones am 2. Dim Ysgol Sul.

Sul, 11 Ionawr: Parch Emrys Thomas am 2. Ysgol Sul am 2.

Sul, 18 Ionawr: Parch Ifor Rowlands am 2. Ysgol Sul am 2.

Sul, 25 Ionawr: Mr Edward Morus Jones. Ysgol Sul am 2.

BYSUS CAEATHRO

Nos Lun, 26 Hydref 1986, 7.15 yr hwyr ac roeddwn yn sefyll o flaen arosfa bws Caeathro a gwelais fws Crosville yn codi teithwyr yn y pentref er mwyn eu cludo i'r "Dref". Bws hwyr i'r Dref ar nos Lun? Oeddwn i'n breuddwydio? Nag oeddwn, roedd y diwrnod mawr wedi cyrraedd - diwrnod dad-reoli y diwydiant bysus yng Nghymru trwy orchymyn llywodraeth Mrs Thatcher.

Cyn y digwyddiad mawr roedd gan drigolion Caeathro wasanaeth bysus gan gwmni O R Williams a'i Feibion - h.y. bysus "Whiteways". Fel rhan o'r llwybr o Gaernarfon trwy Waunfawr i Feddgelert roedd gan y pentrefwyr 8 bws y dydd i'r Dref (2 yn llai ar Sadwrnau) a bws gyda'r nos ar nosweithiau Mercher, Gwener a Sadwrn yn unig. Roedd pawb wedi arfer gyda'r bysus gwyn, eu gyrrwyr, eu cost a'u hamserau.

Daeth "Bws Gwynedd" i rym ar ddydd Sul, 26 Hydref 1986 ond 'roedd rhaid i ni yng Nghaeathro ddisgwyl tan ddydd Llun. Gyda'r amserlen newydd i'w gweld yn y ffrâm felyn y tu allan i gapel y pentref gwelwyd fod gennym 9 bws i'r Dref yn ystod y dydd trwy'r wythnos (2 yn llai ar ddydd Iau) a

bws i'r Dref ac yn ôl BOB NOS yn ystod yr wythnos. Cynnydd yn y gwasanaeth oedd un effaith gwladwy dad-reoli, un arall oedd dyfodiad bysus gwyrdd Crosville i redeg y ddau wasanaeth yn ôl ac ymlaen i'r Dref ar ôl saith yr hwyr.

Bysus Crosville yn gwasanaethu Caeathro! I mi, newydd-ddyfodiad i'r pentref ers pedair blynedd ar ddeg, 'roedd yn od iawn gweld bws (oedd heb fod yn lliw gwyn!) bob dydd yn gwasanaethu'r pentref. Trwy hap mae gennyf gopi o amserlenni bysus yng nghylch Caeathro yn 1930, cyn y "Road Traffic Act" o'r un flwyddyn. Yn unol â'r amserlenni roedd o leiaf bedwar cwmni yn gwasanaethu'r pentref - Crosville Grey,

Beddgelert and District (perchennog W S Jones, Gwynfa, Beddgelert a sefydlwyd cyn 1923), Brown Bus Company a "Williams and Sons" (sefydlwyd 1911).

Rhedodd "Crosville Grey" ar ei lwybr 106, dri bws o ddydd Llun i ddydd Gwener ar hyd y llwybr Caernarfon-Caeathro-Waunfawr-Beddgelert-Porthmadog, a phedwar ar ddydd Sadwrn yn y gaeaf, a phump bws trwy'r wythnos yn yr haf gydag un daith ar y Suliau.

Prif wasanaeth "Beddgelert and District" oedd Caernarfon i Feddgelert gyda 7 bws bob diwrnod a bws gyda'r nos ar nosweithiau Mercher a Gwener. Ar Sadwrnau rhedodd 12 bws o Gaernarfon i Feddgelert, gyda 2 yn parhau i Nantmor, a 4 i Nantgwynant a gyda bws gyda'r nos.

Y "Bws Brown" oedd cwmni arall rhwng Caernarfon a Beddgelert gyda 5 bws ar hyd y llwybr ar ddyddiau Llun, Mawrth, Mercher a Gwener, a 2 yn unig ar ddydd Iau. Gwelir 8 bws ar ddyddiau Sadwrn, a thri ohonynt yn bwrw 'mlaen i Nant Gwynant.

Yr olaf, ac un o'r ddau sy'n parhau i weithredu hyd heddiw yw "O R Williams & Son". Y prif wasanaeth oedd o Waunfawr i Gaernarfon, gyda rhai yn ymestyn i Fetws Garmon neu Geunant. Yr amllder oedd - o Gaernarfon ar ddyddiau Llun, Mawrth, Mercher a Gwener: 11 i Waunfawr; 5 i Fetws Garmon a 4 i Geunant. Ar ddydd Iau, 3 i Waunfawr; 5 i Fetws Garmon ac 1 i Geunant. Ar ddydd Sadwrn byddai 25 o fysiau i Waunfawr; 5 i Fetws Garmon a 9 bws i Ceunant.

Ar y Sul nid oeddynt yn rhedeg bws i unman.

Dim ond ar nosweithiau Mercher, Gwener a Sadwrn roedd bws i'r Dref gyda'r nos gan "Whiteway".

Beth oedd canlyniad yr holl gystadleuaeth yn y 30au? Os edrychir ar amserlen dydd Sadwrn 'roedd 42 bws rhwng Caeathro a Chaernarfon. Roedd y dewis ar Sadwrnau yn anhygoel. Dyma oedd yr amserlen a'r gweithredwr: 8.40:W; 9.20:B&D; 9.20:B; 10.25:W; 11.10:W; 11.25:B; 11.25:B&D; 12.35:C; 12.40:B&D; 1.20:W; 1.30:B; 1.55:W; 2.00:B&D; 2.00:B; 2.10:W; 2.50:B&D; 3.20:W; 3.40:W; 4.10:W; 4.40:B&D; 4.50:W; 5.10:W; 5.35:B; 5.40:W; 5.40:B&D; 6.05:C; 6.10:B; 6.10:W; 6.25:B&D; 6.50:W; 7.20:W; 7.25:B&D; 7.35:W; 8.05:C; 8.20:W; 8.30:B&D; 8.35:W; 9.05:B; 9.20:W; 9.20:B&D; 9.30:W; 9.40:B; a 11.40:C!

(W - Williams; B&D - Beddgelert & District; B - Brown; C - Crosville)

Ie, yn y 30au roedd 13 o fysus i'r Dref ar nos Sadwrn, gyda gwasanaeth cyfyngedig ar nosweithiau Mercher a Gwener. Ar ôl 26 Hydref, 1986 mae gan drigolion pentref Caeathro ddau fws yn ôl ac ymlaen i'r Dref ar chwech noson yr wythnos a chyfanswm o 11 o deithiau ar Sadwrnau. Faint o bobl fydd yn teithio arnynt? Am faint tybed y bydd y gwasanaeth newydd yn parhau?

Clive James

CYMORTH CRISTNOGOL

**Cyngerdd
Mlawreddog**

NGHAPEL ENGEDI,
CAERNARFON
NOS FERCHER,
IONAWR 14eg, 1987

Artistiaid:

MARIAN ROBERTS

TREBOR EDWARDS

TOM EVANS

TRIAWD HENDRE CENNIN

Cyfeilydd: EIRIAN OWEN

Arweinydd: Y Parch. HUW

JONES

Mynediad £2 Plant Pensiynwyr £1

Trefnir gan Elgwyns Bresbyteraidd

Cymru i lansio Apêl y Sahel

Mae Mrs Eirlys Birch
a theulu
Tŷ Bwyta Trwyddedig

**LLETY
CAEATHRO**

Ffôn

Caernarfon 4753

yn diolch i bawb a'u
cefnogodd yn ystod y
flwyddyn ac yn dymuno

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Ddedwydd i chwi oll



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda Oddi wrth

GWALIA GARAGE CAEATHRO

Ffôn:
CAERNARFON 3096
a 77295

DIRGELWCH Tŷ'R YCHEN

Gwelais hi yno o'r blaen, ddwywaith neu dair. Rhaid ei bod hi a'i chariad yn hoffi'r fan, fel yr oedd llawer arall. Ar nosweithiau braf fel hyn, a haul Mehefin yn machlud dros Benrhyn Gŵyr, deuai cryn nifer o bobl draw i Sgêr am sway fach, a dyma lle roedd hi heno yn sefyll rhyngof a chochni'r awyr, ac yn fy ngwyllo yn loncian yn hamddenol o gyfeiriad Tŷ'r Ychen, tuag at y creigiau.

Safai yn unig, rhyw bymtheg llath o'r llwybr troed, wedi'i gwisgo fel arfer, y wisg ddu laes 'ma, mae merched ifanc heddiw mor hoff ohono, ac sydd yn gwneud iddynt edrych yn union fel eu mamgu. Roedd hi mor llonydd â delw, ond chwythai awel ysgafn drwy ei gwallt. Fel y rhedwn heibio iddi, dywedais "Noson hyfryd", ond ni atebodd air dim ond sylly i'm cyfeiriad.


Yna, ar eiliad sydyn, gwelais y ddau ddyn, ar fin y twyni, yr ochr arall i'r lôn. Ei chariad oedd yr un ifanc. Adnabyddais ef er mai ond yn y llwydni y'i gwelais gyda hi o'r blaen. Adnabyddais y llall hefyd, dyn mewn oed oedd fel rheol yn cerdded y ffridd a dryll dan ei gesail. Nid hawdd oedd eu gweld yn y golau egwan, ond nid oedd hynny yn fy mhoeni. Dyma'r amser yr hoffwn ddod ffordd hyn, yn y tawelwch sy'n dod hefo noswyllo, ac roedd perffaith hawl iddynt hwy fod yno hefyd. Yn wir, cymerwn yn ganiataol mai y dyn hefo'r dryll oedd yn dal y tir, oherwydd gwelais

ef hefyd, yma droeon. Ond yr oeddwn yn pryderu am y sefyllfa. Roedd y ddau ddyn yn cweryla, ac fel y cyrhaeddais gyferbyn â hwy, trodd y gŵr ifanc i ffordd a cherdded yn gyflym i gyfeiriad y ferch, gan weiddi dros ei ysgwydd, "Isaac William, mi ydach chi'n ŵr caled, llawer rhy galed i fydd yn dad i Elisabeth".

Arhosais mewn syndod. Cymraeg yn Sgêr yn 1986. Yna clywais sgrech y ferch, a sŵn traed tu ôl i mi yn dechrau cyflymu. Daeth ei llais yn ofnus glir drwy dawelwch y lle,

"Rhed Tomos, rhed am dy fywyd".

Cyffroais drwodd a throi i weld beth oedd yn digwydd, ond yn fy mhryder, baglais ar un o gerrig y llwybr a disgyn ar fy hyd. Daeth ergyd dryll ac aeth sŵn y traed heibio i mi yn gyflym. Codais ond ni allwn weld neb. Nid oedd enaid byw yn y golwg. Porai dyrnoid o ddefaid gerllaw yn ddidaro. Edrychais o amgylch, ond roedd pob man fel y bedd, ac yna clywais drên yn hwtian



Roedd golau yn un o'r ffenestri... o gyfeiriad Cynfig.

Cerddais yn ôl i'r fan y safai'r ferch, ond ni allwn weld neb na dim. Codais fy ngolwg i gyfeiriad yr hen ffermdy, sydd wedi bod yn araf ddadfeilio yn ysgerbwd. Oedd, roedd golau yn un o ffeneestri'r lloffttydd. Od! Dyna od. Nid oes neb yn trigo yn Nhŷ'r Ychen nawr ond roedd yno olau.

Fel ffwl, cerddais yn ôl at yr adeilad. Credais i mi glywed merch yn wylo, a drws yn cau gyda chlemp. Yna, heb os nag onibai, clywais lais Isaac yn croch fygwth:

"Mi gei ddod allan pan briodi di Kirkhouse, y sguthan fach bengaled. Kirkhouse, nid y Tomos

gythral 'na." Diffoddodd y golau gwan.

Elisabeth, Tomos, Isaac. Cymraeg yma yn Sgêr ym 1986? Doedd gen i ddim calon i fynd yn fy mlaen. Cymerais y llwybr yn ôl am gartra. Nid wedi colli amser yr oeddwn ond wedi ennill dwy ganrif. Lle dirgel yw Sgêr yn y machlud.

Mae'n debyg i lawer ohonoch ganu'r alaw hudolus honno "Y Ferch o Sgêr", neu fwynhau darllen nofelau R D Blackmore neu Alun Morgan. I ni ym Mhorthcawl, mae Tŷ'r Ychen yn rhan mor fyw o'n hardal ag ydi Tŵr Dolbadarn i bobl Llanberis.

Goronwy Owen

SEGURDOD CHWAREL DINORWIG



Y mae saith mlynedd ar ddeg ers pan gaewyd chwarel Dinorwig. Rhai o'r hen chwarelwyr o bosibl heb fod ar gyfyll y lle ers y dydd hwnnw. Dyma i chwi lun o ddau adeilad a dynnwyd yr haf diwethaf fel y maent heddiw. Yn dwyn atgofion melyn i rai ohonoch ond dim mor felys i rai eraill. Bu llawer o ddadlau, tynnu coes a llawer o straeon 'Wil Celwydd Goleu' yn y ddau adeilad. A ydych yn gwybod pa adeiladau ydynt. Atebion gyferbyn:



1. Shed Hollti a Naddu, Pone Awstralia Chwarel Dinorwig fel y mae heddiw.
2. Oddi fewn i Gaban Pone Pen-y-Garret fel y mae heddiw. Sylwch ar yr hen gôtiau yn dal i hongian ar y wal a'r esgidiau ar y llawr.

OSMOND SHAW

DEINIOLEN

Gwerthu
a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel Newydd
GWASANAETH ATEB
FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545
Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

ECO'R IFANC

EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL RHESTR CANLYNIADAU

Unawd Merched Dosbarth 2 a 3

1. Ffion Williams, Eryri; 2. Sharon Williams, Eilian; 3. Lowri Williams, Gwyrfa. **Adrodd Cymraeg 3 a 4:** 1. Sioned Williams, Eryri; 2. Trystan Thomas, Elidir; 3. Jennifer Jones, Elidir. **Unawd Piano Dosbarth 1:** 1. Lowri Angharad, Gwyrfa; 2. Ruth Parry, Elidir; 3. Gwawr Williams ac Eysyllt Jones, y ddwy o Eryri. **Cân Werin Agored:** 1. Sharon Vaughan Williams, Eilian; 2. Meinir Williams, Eryri; 3. Ffion Williams, Eryri. **Adrodd Saesneg, Dosbarth 3 a 4:** 1. Sioned Williams, Eryri. **Unawd Offeryn Dosbarth 2 a 3:** 1. Dylan Williams, Gwyrfa; 2. Iwan Williams, Elidir; 3. Suzanne Jacobs, Gwyrfa. **Adrodd Saesneg Dosbarth 1 a 2:** 1. Lyn, Elidir; **Unawd Offeryn Dosbarth 1:** 1. Aled Griffiths, Eilian; 2. Dyfed Whiteside, Gwyrfa; 3. Tammi Jones, Eryri. **Dawnsio Disgo:** 1. Eilian; 2. Elidir; 3. Carys Pugh & Co; 4. Gwyrfa.

Unawd Dosbarth 4,5 a 6: 1. Sharon Vaughan Williams, Eilian; 2. Alison Edwards, Gwyrfa; 3. Catrin Gwyn, Eryri. **Adrodd Cymraeg Blwyddyn 1 a 2:** 1. Tammi Jones, Eryri; 2. Sioned Owen, Elidir; 3. Mandy Williams, Gwyrfa. **Unawd Merched Dosbarth 1:** 1. Lowri Angharad, Gwyrfa; 2. Sioned Owen, Elidir; 3. Lucy Abbot, Elidir. **Unawd Piano Blwyddyn 4,5 a 6:** 1. Sharon Vaughan Williams, Eilian; 2. Einir Angharad Price, Eilian; 3. Manon Llwyd Evans, Eilian. **Unawd Bechgyn Blwyddyn 1, 2 a 3:** 1. Tristan Thomas, Elidir; 2. Dyfed Jones, Eryri; 3. Aled Hughes, Gwyrfa. **Corau Adrodd:** 1. Elidir; 2. Eryri; 3. Eilian; 4. Gwyrfa. **Parti Bechgyn Dosbarth 1, 2 a 3:** 1. Elidir; 2. Gwyrfa; 3. Eilian; 4. Eryri. **Adrodd Saesneg Dosbarth 5 a 6:** 1. Lisa Rudkin, Gwyrfa; 2. Cheryl Edwards, Elidir; 3. Alison Jones, Gwyrfa. **Enillydd y Gadair - Angharad Price, Eilian;** 2. Eurgain Haf Evans, Elidir; 3. Catrin Lloyd Roberts, Eilian; 4. Gwenllian Parry, Eryri. **Unawd Offeryn Dosbarth 4,5 a 6:** 1. Lisa Rudkin, Gwyrfa; 2. Graham Williams, Eryri; 3. Olwen Jones, Elidir. **Adrodd Cymraeg Dosbarth 5 a 6:** 1. Meinir Williams, Eryri; 2. Gwawr Owen, Elidir; 3. Cheryl Edwards, Elidir. **Deuawd:** 1. Sharon a Sioned, Eilian; 2. Ffion a Meinir, Eryri; 3. Nia a Lisa, Elidir a Gwyrfa ac Alison a Catrin, Eilian a Gwyrfa. **Parti Cardd Dant:** 1. Eilian; 2. Elidir; 3. Eryri; 4. Gwyrfa. **Unawd Piano:** 1. Hannah Rudkin, Elidir; 2. Bryn Jones, Eryri; 3. Lowri Williams, Gwyrfa; 4. Lyn Crowther, Elidir. **Deuawd ysgafn:** 1. Sharon a Sioned, Eilian; 2. Janet a Bethan, Eilian ac Elidir; 3. Alison a Sharon, Gwyrfa ac Eilian. **Unawd Cerdd Dant:** 1. Ffion Williams, Eryri; 2. Alison Edwards, Gwyrfa; 3. Meinir Williams,

Eryri. **Côr Deulais:** 1. Elidir; 2. Eilian; 3. Eryri; 4. Gwyrfa.

Tŷ a enillodd fwyaf o farciau offerynol:

GWYRFAI

Marciau terfynol:

Elidir - 158 a hanner

Eryri - 139 a hanner

Eilian - 135

Gwyrfa - 121

Enillydd mwyaf o farciau Dosbarth 1,2 a 3:


1. Ffion Williams, Eryri

2. Tammi Jones o Eryri a Sioned Owen o Elidir.

Enillydd mwyaf o farciau Dosbarth 4,5 a 6:

1. Sahron Vaughan Williams, Eilian

2. Meinir Williams, Eryri.



Enid Price a Christopher Jones, Capteiniaid Elidir, y tŷ buddugol yn arddangos Cwpan y Tŷ buddugol, Cwpan y Côr buddugol a'r cwpan am y parti cyd-adrodd buddugol.



Parti Cyd-adrodd Eryri a ddaeth yn ail



Parti cyd-adrodd Eilian oedd yn drydydd yn yr un gystadleuaeth.

**YN EISIAU
RHYWUN I FOD
YN GYFRIFOL
AM
"ECO'R IFANC"**

MWY O LUNIAU'R CYSTADLEUWYR



Parti Bechgyn Eryri yn perfformio "Hen Feic Peni-fardding"



Eilian - buddugwyr y Dawnsio Disgo.

O GYNGERDD NADOLIG YSGOL GYNRADD BETHEL



MWY O NEWYDDION

PARTI NADOLIG PENDALAR: Prynhawn Mawrth, yr unfed ar bymtheg o Ragfyr, cynhaliwyd parti Nadolig i blant Ysgol Pendalar. Mwynhaodd pawb eu hunain a derbyniodd pob un ohonynt anrheg gan Sion Corn. Diolch i Mr Alwyn Fleming am drefnu'r parti ac i Mrs Carys Evans am drefnu'r bwyd.

LLONGYFARCHIADAU: I Sion Llwyd, 4A am i'w waith ysgrifenedig Saesneg gael ei ddewis i'w gyhoeddi yn y 'Caernarfon & Denbigh'. Ysgrifennodd Sion amdano'i hun fel cymeriad yng ngwaith y bardd Wilfred Owen, syn sôn am y Rhyfel Byd Cyntaf, a drwy'r darn roedd Sion yn mynegi teimladau y bardd tuag at ryfel. Cafodd ganmoliaeth uchel iawn am ei waith.

PLANT MEWN ANGEN: Casglwyd dros gan punt tuag at Gronfa Plant mewn Angen, trwy i chwech o ddisgyblion yr ysgol gael eu noddi i chwarae tenis bwrdd am ddeg awr. Y casglwyr oedd Sarah Davies, Michelle Sandicombe, Robert Redpath, Steven Wroe, Sian Jones a June Marie Williams. Diolch i bawb a wnaeth eu cefnogi.

EISTEDDFOD BRO MADOG – CYSTADLEUAETH LLIWIO MADOG Y MORWR A'R FÔR FORWYN



MADOG Y MORWR A'R FOR-FORWYN

Ar y llong 'Dora' oeddwn pan gododd storm fawr ar y môr. Ysgubodd tonnau mawr fel mynyddoedd dros y llong a'm golchi oddi ar ei bwrdd i ganol y môr. Teimlais fy hun yn cael fy sugno i lawr i berfedd y môr a'r dŵr yn cau'n dynn uwch fy mhen. Suddais i lawr i'r tywyllwch du.

Yn sydyn teimlais rhywun yn gafael yn fy llaw a'm tynnu ar hyd waelod y môr i'r dŵr llonydd. Pan agorais fy llygaid, gwelais mai môr-forwyn oedd yno. 'Roedd ei gwallt fel aur a'i dwy lygaid fel glesni'r môr ar ddiwrnod braf.

Aeth y fôr-forwyn â fi i'w chartref dan y don, i ogof o berlau a chwrel. Yn ei gardd 'roedd blodau'r môr yn tyfu a phob math o bysgod hardd yn nofio 'nôl a blaen.

Pan ostegodd y storm, aeth y fôr-forwyn fach â fi yn ôl i wyneb y môr. Er ei bod yn anodd gadael y lle tlws dan y môr, yr oeddwn yn falch o weld y 'Dora' a'r criw a hwylio'n ôl i harbwr Porthmadog.

Wnaethoch chi fwynhau'r stori am Madog y Morwr a'r Fôr-Forwyn? Wel, beth am liwio'r llun? Anfonwch y llun, ynghyd â'r ffurflen gais isod, i Swyddfa'r Eisteddfod, 7 Bank Place, Porthmadog, LL49 9AA, erbyn Ionawr 8, 1987. Dyma rywbeth i chi ei wneud yn ystod y gwyliau a bydd gwobrau i'r goreuon! Gobeithir enwi'r enillwyr yn rhifyn mis Chwefror.

ENW: _____

CYFEIRIAD _____

Rhif Ffôn: _____

Oedran: _____ Ysgol: _____



Ymddangosodd yr isod ym mhapur bro Tafod Elai, a diolchwn i Olygydd y papur hwnnw am gytuno mor barod, ar gais Gweithgor Deddf Newydd i'r Iaith Gymraeg, i holl bapurau bro Cymru ailgyhoeddi'r dudalen.

Y GYMRAEG: MWY NA DEDDF?

Ifan Wyn Williams yn
holi'r ARGLWYDD
GWILYM PRYS DAVIES

Yn Y Faner, Mehefin 20, 1986 'rydych yn dweud, "nid wyf yn obeithiol y ceir deddfwriaeth yn fuan." Wnaeth eich cyfarfod chi a Dafydd Wigley a Nicholas Edwards, Ysgrifennydd Cymru, ganol Medi unrhyw beth i newid eich meddwl? Mae'r ffaith bod Nicholas Edwards wedi cyhoeddi ar ôl y cyfarfod bod y Llywodraeth yn cychwyn proses o ymgynghori'n ddigwyddiad o bwys ac yn gydnabyddiaeth ar ei ran fod yna ddadleuon cryfion dros ddeddfwriaeth newydd. Mae'r gydnabyddiaeth honno'n neges o obaith a chalondid nad oedd gennym dri mis yn ôl. Nid yw'n ddim mwy, na dim llai na hynny.

'Roedd Dafydd Wigley yn croesawu'r ymgynghori, ond bydd rhai yn gweld peryglon . . . ?

'Dwy i ddim yn gweld sut y gellid yn hawdd wrthwynebu ymgynghori â'r cyrff yr effeithir arnynt gan Ddeddf newydd. Y dewis arall fyddai sefydlu Pwyllgor Hughes-Parry arall i ymgynghori ac i ddwyn argymhellion ger bron. Mae yna beryglon mawr wrth gwrs. Ein cyfrifoldeb fydd gwneud y cyfan a fedrwn i geisio sicrhau na fydd yr ymgynghori - a ddaw i ben yn y Gwanwyn - yn esgus ar ran y Llywodraeth dros wneud dim.

Pryd felly y bydd yna Ddeddf Iaith newydd?

Ni cheir Deddf newydd rhwng hyn a'r Etholiad Gyffredinol. Yn wir, rhaid pwysleisio na chafwyd addewid gan Nicholas Edwards y ceir Deddf Iaith newydd o gwbl. Tra bod gennym dystiolaeth fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol gydymdeimlad â'r Gymraeg eto dywed ei fod ar hyn o bryd yn



niwtral ei agwedd ar brif ddarpariaethau'r ddau Fesur. Bydd yn gwrandao ar lais y wlad cyn rhoi heibio ei niwtraliaeth. Dyna pam mae'r ymgynghori mor bwysig, er da neu er drwg.

Un wrth-ddadl gyfleus fydd y gost. Allai hyn fod yn faen tramgwydd gwirioneddol?

'Rydych yn iawn i ddwyn sylw at y gost. Dwedodd Nicholas Edwards hynny'n groyw a di-dderbyn-wyneb wrth y ddau ohonom. Dyna agwedd sy'n rhan o feddylfryd y Llywodraeth. Dyna hefyd un o'r prif faterion y gwahoddir sylwadau arno yn y ddogfen ymgynghoriol i'w chyhoeddi ymhén rhyw bythefnos. Nid oedd gan y Gweithgor ddigon o wybodaeth am drafodion ariannol i ddod i farn fanwl am yr oblygiadau ariannol. Ond dylsw'n ddweud nad yw bod yn rhad yn gyfystyr â bod yn effeithiol.

Fydd ymgyrchoedd 'pobl ifanc' yn prysuro pethau, fel y mae'n wir iddyn nhw gael dylanwad ffafriol ar bethau yn y gorffennol?

Yr angen pennaf rhwng hyn a'r Gwanwyn nesaf yw dylanwadu ar y ddadl a fydd yn cael ei chynnal o fewn y Swyddfa Gymreig trwy geisio sicrhau bod tystiolaeth gadarnhaol o blaid y ddau Fesur yn cyrraedd yno oddi wrth y cyrff cyhoeddus megis yr awdurdodau lleol, yr awdurdodau ieuchyd, Undebau Llafur, diwydiant, Prifysgol Cymru, y cymdeithasau gwirfoddol a'r eglwysi. Byddai'n werthfawr iawn pe gellid manylu yn y dystiolaeth honno er mwyn rhoi grym tu ôl i'r dadleuon.

Beth fyddai prif nodweddion eich drafft chi?

Prif nodwedd y Mesur y bu gennyf law yn ei ddrafftio yw y byddai'n ei gwneud hi'n haws o lawer i'r Cymro Cymraeg fyw bywyd cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall gyfathrebu yn Gymraeg â'r cyrff cyhoeddus sy'n ei wasanaethu. Gall

ddefnyddio siec Gymraeg heb fod neb yn ei gwrthod. Gall hawlio fod y Swyddfa Gymreig yn ymholi i achwyniad o ragfarn yn erbyn y Gymraeg. Gall yr awdurdodau cyhoeddus ac unrhyw gyflogwr arall ricriwtio staff i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i'r sawl sy'n dymuno eu derbyn. Rhydd gyfrifoldeb ar y Swyddfa Gymreig i hyrwyddo'r Gymraeg. Gwelwch felly y byddai'r Mesur yn offeryn gwerthfawr i'r iaith Gymraeg yn ei chyfyngder.

Sut y bydd hi'n gwarchod yr iaith, heb sôn am ei hybu? Beth yw dylanwad deddf ar ewyllys pobl, os o gwbl?

Ni all deddf y wladwriaeth warantu 'byw fyth y Gymraeg'. Ond yn sicr

ddigon gall Deddf greu'r amodau a fydd yn symbyliad i boblogaeth Cymru i'w defnyddio. Er gwaetha'r gostyngiad parhaol yn nifer y Cymry Cymraeg yn ystod y 70 mlynedd ddwetha, y mae'r dystiolaeth ddiweddar yn dangos erbyn hyn bod nifer y plant dan bymtheg oed sy'n ei siarad ar gynnydd. Mae'n weddol sicr bod hynny i'w briodoli i ddylanwad llesol yr ysgolion Cymraeg a sefydlwyd yn rhinwedd Deddf Addysg 1947, y statws deilyngach a roddwyd i'r Gymraeg gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1967 a'r gweithgarwch gwirfoddol o'i phlaid a'r tair ffactor gyda'i gilydd yn cryfhau'r ewyllys ymhlith y Cymry i gynnal yr iaith genedlaethol ac i'w throsglwyddo i'r dyfodol.

PENBLWYDD "GWYLIEDYDD"

Fe fydd y GWYLIEDYDD yn gant a deg oed ym mil-naw-wyth-saith.

Hen bryd ei gladdu!

Dim colled ar ei ôl!

Tybed?

Mae'r EURGRAWN a'r WINLLAN eisoes wedi mynd. Ac er mor glodwiw yw'r cylchgronau cydenwadol CRISTION ac ANTUR, a'u hysgogiadi'r enwadau gydweithio a chyd-fyw, i'w groesawu a'i gefnogi hyd yr eithaf, eto i gyd fe fuasai diflaniad y GWYLIEDYDD yn ein gadael ni - Wesleaid Cymraeg yr Eglwys Fethodistaidd - heb unrhyw 'ddalen gyfarch' genedlaethol o unrhyw fath.

Credwn fod gwerth mewn ymdrech i gadw'r GWYLIEDYDD yn fyw ym 1987 - ei wedd-newid, ei rymuso, ei wneud yn erfyn er budd ysbrydol. Drwy adfer iddo'r pwysigrwydd a'r grymster a berthynai iddo gynt, gall fod yn gyfrwng i'n closio at ein gilydd - drwy ein diddanu, ein swcro, ein cadw'n ymwybodol o hynt a helynt y 'teulu'.

Dyma'r bwriad o fis Ionawr 1987 ymlaen:

1. Rhoi diwyg hollol newydd a gwahanol iddo drwy ddefnyddio'r dulliau diweddaraf o argraffu - wyth tudalen (maint A4), yn defnyddio lliw ychwanegol, ac yn cynnwys lluniau, ffotograffau, cyfresi newydd a phosau.
2. Golygydd newydd, sef Owain Owain, "Bryn Gellyg", Lôn Ddewi, Caernarfon, gyda phanel grymus o gynorthwywyr golygyddol, a chydweithrediad effeithiol a chefnogaeth frwd y Pwyllgor Llyfrfa.

3. Gostwng y pris blyneddol o £3.90 (sef 26 x 15c) i £3 yn unig (sef 10 x 30c) drwy gyhoeddi deg rhifyn y flwyddyn - yn fisol, gyda rhifyn mis Mehefin ar gyfer Mehefin-Gorffennaf, a rhifyn mis Medi ar gyfer Awst-Medi.

4. Eich cael chi - ie, CHI yn bersonol! - i dderbyn mai eich papur chi yw'r GWYLIEDYDD: yn eiddgar i'w ddarllen ac yn awyddus i'w hybu.

5. Ei gael i lwyddo yn y fath fodd ag i wneud tri pheth yn bosib, maes o law - gostwng ei bris, cynyddu nifer y tudalennau, a'i gyhoeddi'n amlach.

AMHOSIB?

Chi sydd i benderfynu. Gyda'ch cefnogaeth a'ch brwdfrydedd chi, fe lwyddwn!

Y NADOLIG

Ar daith i ble bu'r doethion - yn galw,
A bugelliaid weithlon;
Awn o barch a'u cyfarchion
I'r stabl dŷ yn llu mawr llon.

Iesu ym mhreseb asyn - a welwn
Yno'n wylaidd blentyn;
Byw rodd Duw i gadw dyn
Ydyw, a'i obaith wedyn.

H Garrison Williams

Pleser i mi oedd cael cyfarfod â H Garrison Williams - cyn-athro i mi yn Ysgol Ganol Llanrug, - a deall ei fod yn darllen yr "Eco'n" rheolaidd. Dymuna anfon ei gofion at bawb o'i gyn-ddisgyblion yn ardal Llanrug. Ein pleser ninnau yw cael cyhoeddi'r ddau englyn hwn ganddo.

Rhowch anrheg LLEOL y Nadolig hwn o
weithdy crefftau



SIOP AMAN Stryd Fawr
DEINIOLLEN Ffôn: Llanberis 871210

Hefyd dewis rhagorol o Fideos i'w benthyc
Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gwil a'r teulu

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

J.M. JONES
a'i FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU
DEINIOLLEN
(gyferbyn â'r Ysgol Gynradd)

Crefftwyr Gwaith Llaw Traddodiadol
Cerrig o Bob Math ar Gael

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands "Glanrafon" (872275)

LLONGYFARCHIADAU I Mr Edgar Williams, Fron Gader, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 80 oed.

I Kevin Owen, Talgwynedd ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 21.

I Myfanwy Roberts, Bod Gwilym ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 18.

CYDYMDEIMLAD: Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Robert Williams, mab Mrs Hannah Williams, 2 Maes Gerddi, a brawd Mrs Enid Price, 1 Stryd Newydd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod a'r teulu oll ym Mangor yn eu profedigaeth.

CLWB POBOL Y CWM: Wedi croesawu Canon D R Williams, Llanwnda, a deall ei fod wedi gwella o'i anhwylder a orfu iddo ymddiheuro o fethu a chyflawni ei addewid i'n hanerch rhai wythnosau'n ôl. Llongyfarchodd y Llywydd, Mr Llew Hughes, ef ar ei ddychriad diweddar. Mae'r Canon yn daf i'r Parch Aled Williams, Rheithor presennol y plwyf, sydd erbyn hyn wedi derbyn gwahoddiad i offeiriadaeth Eglwys Machynlleth. Bu Canon Williams ar daith i Israel yn ddiweddar a chawsom sgwrs ar ei ymweliad â Jerusalem yn neilltuol. Eglurodd cymaint o fwyhâd oedd cael troedio ar dir ac ymweld ag adeiladau gyda chefnidir mor hanesyddol. Roedd ganddo amryw o luniau o'r mannau yr ydym yn gyfarwydd â hwy trwy gyfrwng yr Efyngyllau. Diolchwyd iddo gan y Llywydd. Rhoddwyd y te gan Mrs E Jones, Seiont House a Mrs Rowlands, Talafon, a'r raffl gan Mr Tom Owen, 1 Maes Gerddi.

Dydd lau, Tachwedd 21, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd, ar ddigwyddiadau anarferol o'r gorffennol, megys ystormydd enfawr, oedd wedi creu difrod ac anhwylystod ac yn dal i aros yn y cof. Diolchodd y llywydd iddo yn ogystal i'w gynnal dydd lau, Rhagfyr 11. Rhoddwyd y te gan Mrs E Williams, Pantafon a Mrs H M Roberts, Bryn Gro, a'r raffl gan Mrs R Parry, Bro Rhythallt ac enillwyd gan Mrs K Watkins, Dolwen.

YR YSGOL GYNRADD

BIWMARES: Aeth plant yr Adran Gynradd i Fiwmares i dreulio diwrnod yn ddiweddar. Ymwelwyd â charchar Biwmares yng nghwmni Julia Latham o Archifdy Gwynedd yn ystod y bore, cyn treulio'r prynhawn yn rhyfeddu at yr arddangosfeydd o deganau a gemau hen yn yr Amgueddfa Plentynod. Roedd yn brofiad arbennig iawn cael gweld sut

y câi y werin ei thrin yn y carchar, ac yna crwydro o gwmpas Amgueddfa'n llawn o deganau plant y byddigions yn y prynhawn.

PANTOMEIM: Bu dosbarth Mrs Morris yng Ngholeg Technegol Gwynedd yn gweld perfformiad gan ferch y Cwrs Gweinyddesau Meithrin beth amser yn ôl. Roedd y plant wedi mwynhau'r perfformiad newydd o Stori'r Geni gan y genod, ac wedi gweld Miss Gillian Jones sydd gyda nhw am y flwyddyn, yn actio.

CWIS LLYFRAU: Daeth Hywel James, Llyfrgellydd Plant Arfon-Dwyfor i'r Ysgol ddechrau'r mis i holi'r plant yn y Cwis Llyfrau blynyddol. Roedd dau dîm dan unarddeg ac un tîm dan naw oed a chafodd pawb hwyl dda ar ateb y cwestiynau. Aelodau'r tîm dan ddeuddeg oedd Nicola Houston, Dafydd Williams, John Evans, Marc Roberts, Owain Gwyn, Irfon Jones, Gareth Price a Marian Jones. Aelodau'r tîm dan naw oed oedd Darren Williams, Gareth Davies, Bryn Evans a Terry Williams.

DEILLION: Daeth Mr John Owen o Lanrug atom i siarad am gŵn i'r deillion. Daeth a'i gi ef ei hun, Owi, gydag ef a bu'n siarad am ofalu ar ôl y ci, a sut 'roedd cael ci tywys wedi newid ei fywyd ef. Cytunodd pawb i fynd ati i gasglu papur glo yw i godi arian i ddysgu mwy o gŵn tywys. Os oes pentrefwyr yn dymuno helpu gyda'r casglu mae'r canlynol yn fodlon derbyn unrhyw fath o bapur glwyw (foil) ar ran yr ysgol; Mrs Jean Hughes, 2 Bryn Gro; Mrs Hilda Orrit, Moranedd; Mrs Rhian Jones, Bron Eryri a Mrs Margaret Williams, Bryn.

ADRAN YR URDD, PEN LLYN: Ymunodd Adran Penisarwaun â ni ychydig wythnosau'n ôl a chafwyd Cwis diddorol gan Mr Richard Jones, Bethel. Tîm Penisarwaun a orfu yn y gystadleuaeth rhwng y ddwy Adran. Diolchwyd gan Carys Williams ar ran Adran Pen Llyn a chan Osian Dafydd ar ran Penisarwaun.

Bythefnos yn ddiweddarach, daeth Mr Aled Taylor, Warden Parc Cenedlaethol Eryri, atom i ddangos sleidiau a rhoi sgwrs i ni am ei waith gyda'r Parc ac fel aelod blaenllaw o Dîm Achub Bywyd Mynyddoedd Eryri.

Roedd yr aelodau wedi mwynhau ei gwmni'n fawr ac wedi cael atebion i lawer o gwestiynau am fynyddau.

Cynhelir Disgo Nadolig yr Adran nos Lun, 22ain Rhagfyr yn Ysgol Cwm-y-Glo am 6.00 o'r gloch.



TIMAU'R CWIS LLYFRAU CYMRAEG



Llyn o'r tri thîm o Ysgol Cwm-y-Glo fu'n cystadlu yn y cwis llyfrau yn ddiweddar. Yn y llun hefyd mae Hywel James, Llyfrgellydd plant Arfon-Dwyfor.

LLYFRAU NEWYDD CYMRAEG

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

BOWEN, D J

Dafydd ap Gwilym a Dyfed

Eisteddfod Genedlaethol 1986. £1.00

Y ddarlith lenyddol flynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun, 1986.

EVANS, R H (Gol)

Hanes Henaduriaeth Dyffryn Clwyd Pwyllgor Hanes Henaduriaeth Dyffryn Clwyd. £5.00

Hanes yr eglwys.

EVANS, Ray.

Y Llyffant

Gwasg Gomer ar ran Llys yr Eisteddfod Genedlaethol. £2.50

Cyfrol fuddugol y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun, 1986.

GRIFFITH, H Wynne

C F Andrews

Gwasg Pantycelyn. £2.50

Hanes cyfaill Gandhi ac arloeswr y genhadaeth gyfoes.

JONES, Dyfrig

Y Planedau Radio

Eisteddfod Genedlaethol 1986. £2.00

Darlith Wyddoniaeth Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun, 1986

MEDI, Buddug

Tun Cwstard Mari Sion

Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol. £3.50

Cyfrol o storïau crefyddol i blant.

MORRIS, Roberts, M.

Project Defnyddiau ac Adnoddau y Swyddfa Gymreig:

Hanes Cromwell,

Y Rhyfel Cartref,

Siarl a'i Fyd.

Tri llyfr newydd yn y gyfres hanes i ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd.

ROBERTS, Enid

Tai Uchelwyr y Beirdd 1350-1650

Cyhoeddiadau Barddas £3.50

Chwaer gyfrol i Bywyd y Beirdd

Safwn Gyda'n Gilydd: We Stand Together

Grŵp Merched Ffestiniog. £3.00

Hanes streic Chwarelwyr Blaenau Ffestiniog trwy lygaid merched

Grŵp cefnogi'r chwarelwyr.

WILLIAMS, Gwynne

Pysg

Cyhoeddiadau Barddas. £3.95

Cyfrol o gerddi.

DRAENOG



Bu gŵr ar stâd Glanffynnon

Yn brysur iawn un noson

Yn fanwl 'studio'i lun mewn drych

Ond ar ba ben dywedwch?

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291


AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd
Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym
mro Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym
musnes llefrith

EIRWYN WILLIAMS LLWYNCOED CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 870563

Diolch am eich cefnogaeth
trwy'r flwyddyn




TAC SIS AMBERLINE BETHEL

UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl
ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth



BILL ac EILEEN
GRIFFITHS

**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi
wrth



I. MORRIS



CYFLENWYR PORTHIAN



DALGETY SPILLERS
Y FACHELL

LLANDDEINIOLEN

Ffôn: Y FELINHELI 670439

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll
oddi wrth

GWILYM A MEIRWEN JONES

SWYDDFA'R POST



BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670 261



BWYDYDD, MELYSION, PAPURAU NEWYDD

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD
DDA I CHWI OLL
ODDI WRTH BAWB YN



GAREJ MINFFORDD



BETHEL


(T.R. EVANS)

Ffôn: Y Felinheli

670451

1987

Blwyddyn AUSTIN –
ROVER – Ymunwch
â'n llwyddiant



ROVER • METRO • MAESTRO • MONTEGO • MINI

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgerran (Portdinorwig 670726)

YSGOL FEITHRIN BETHEL: Cynhelir Bore Coffi'r Ysgol Feithrin ar fore Gwener, Rhagfyr 12fed, pryd y ceir nifer o stondinau yn gwerthu nwyddau ar gyfer y Nadolig. Bydd y plant yn canu ychydig o ganeuon a charolau.

Bydd parti Nadolig y plant yn y neuadd am 11.30 bore lau, Rhagfyr 18fed. Disgwylir i Sion Corn alw heibio gydag anrheg i bob plentyn.

Erbyn hyn y mae 33 o blant yn mynychu dosbarthiadau'r Ysgol Feithrin ac roedd pawb yn falch iawn o weld bod y caban newydd wedi cyrraedd ond bod llawer o waith i'w wneud eto cyn bydd y plant a'r athrawon yn cael cynnal yr ysgol yno - gobeithir y bydd hyn yn fuan yn y flwyddyn newydd. Diolch i bawb am eu cymorth i gael y caban i'w le.

Dymuna'r plant a'r rhieni Nadolig Llawen a phob diolch i Anti Rita, Anti Eluned ac Anti Margaret.

DIOLCHIAU: Dymuna Pwyllgor yr Eisteddfod ddiolch am bob cefnogaeth a phob cyfraniad tuag at Eisteddfod 1986, gan edrych ymlaen am Eisteddfod 1987 ar Dachwedd 7fed.

Dymuna Mrs Sally Hughes, 35 Bro Rhos, ddiolch yn garedig iawn i'r meddygon a Staff Ysbyty'r Bwth, Caernarfon a hefyd i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu hymweliadau, gartref ac yn yr Ysbyty, ac am y llu cardiaid ag anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei gwaelled diweddar.

CLWB BRO BETHEL: Cafodd Clwb Bro Bethel eu Swper Nadolig yn Nhafarn y Rhôs, Rhostrehwfa, nos Fercher, Rhagfyr 3ydd. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Roberts, Berwyn, Mr Tom Jones, Glanllyn, hefyd i Mrs Sallie Hughes, 35 Bro Rhos ar ddathlu ei 80 mlwydd oed. Anfonwyd cyfarchion y Clwb iddi, a dymunwyd gwellhad buan iddi. Cafwyd raffl, gwobr gan Mrs Myrna Owen, a'r gweddill o'r gwobrwyon gan Mrs Stanley Griffith a Mrs W G Ellis, a'r ddwy a drefnodd y trip.

Bydd y cyfarfod nesaf Chwefror 3ydd, 1987.

NEUADD GOFFA BETHEL: Enillwyd Clwb Cant mis Hydref oedd: 1. Mrs Elisabeth Evans, Blaen Parc; 2. Mrs Margaret Hughes, 6 Bro Rhos; 3. Mrs Alys Jones, Llys Alaw; Mr Hugh Williams, Gilfach; Mrs Sian Hughes, Cae Rhos.

Enillwyd mis Tachwedd oedd: 1.: Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd; 2. Mrs Pat Jones, Cefn; 3. Mr Dylan Owen, 20 Cremllyn; S Parry, 6 Y Ddol; Mrs Eunice Jones, Bryn Banon; Mrs Pat Jones, 15 Tan y Buarth; Mr Ron Mercer, Roslyn; Mr Idris Morris, Fachell; Miss Megan Rowlands, Fron

Helyg.

Tynnwyd mwy o wobrau mis Tachwedd fel gwobrau Nadolig.

Y NEUADD: Mae angen glanhawr ar gyfer y Neuadd. Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd, a fuasech cystal â chysylltu â Myfanwy Jones, Glan y Gors, Bethel (Ysgrifennydd).

CLWB FFERMWYR IEUANC, CAERNARFON: Yn ystod y ddau fis diwethaf bu'r clwb yn cymryd rhan mewn nifer o gystadleuthau. Ar Dachwedd 5ed bu Andrew Jones, Eurwyn Jones, Angharad Preis a Meinir Williams yn Ysgol Gynradd Eder yn cymryd rhan yng Nghystadleuaeth Gwybodaeth Gyffredinol Eryri. Cawsant gryn hwyl arni hefyd. Nos Lun, Tachwedd 24ain, cynhaliwyd Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus yn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon. Angharad Elis, Angharad Preis ac Andrew Kettle fu'n cystadlu dan 16 oed ar ran y Clwb. Daethant yn gydradd bedwerydd.

Mae'r clwb yn awr wedi cau am wyliau'r Nadolig ac ail-gychwynir yn Neuadd Goffa Bethel, nos Fawrth, Ionawr 6ed, 1987 am 8 o'r gloch.

CLWB Y RHOS: Nos Lun, Rhagfyr 8fed, cafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni Mr Emyr Price. Roedd ei sgwrs ar ei brofiadau yn trefnu y rhaglenni diweddar ar yr Argwydd Cledwyn Hughes yn ddadferol iawn ynglŷn â chost a thrafferthion cynhyrchu rhaglenni teledu.

Darlennwyd llythyr a dderbyniwyd oddi wrth y Llang Brydeinig yn ymddiheuro am nad oeddynt wedi anfon torch o babi i'w rhoi ar y gofeb yn enw'r Clwb.

Erbyn hyn mae'r Clwb wedi penderfynu y gall unrhyw ddyn sy'n byw yn y cylch ymaelodi dim ond iddo gysylltu ac aelod o'r clwb. Mae'r Clwb yn cyfarfod yn yr Ysgol, ar yr ail nos Lun bob mis gyda'r aelodau i gyd yn gyfrifol am drefnu sgwrs yn eu tro.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Blanchard, Llythyrdy, Tan-y-Coed ar enediggaeth ei wyres gyntaf. Bore Sul, Rhagfyr 7fed, ganed merch gyntaf-anedig i'w mab Michelle a'i briod Sharon. Llongyfarchiadau i'r rhieni ieuanc a'r teulu oll gan gynnwys nain a taid Llanberis, a phob bendith i'r un fach.

CROESO ADRE: i Mrs Jennie Hughes, Oerddwr, wedi cyfnod yn aros gyda'i merch Gwenda, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Boed iddi iachad buan.

AR Y TELEDU: Gwelwyd Mark a Tudor Wyn Jones, Dolafon yn cymryd rhan mewn Cwis ar y teledu pnawn Llun, Rhagfyr 8fed, hefyd Aled Parry, Ael-y-Bryn, ef ymysg eu cefnogwyr.

Llongyfarchiadau i Mark a Tudor a gweddill y tîm o Ysgol Brynrefail ar ennill y Cwis.

TRIP I RYD-DDU: Cafodd Aled, Tudor a Mark ddiwrnod hapus yng Nghanolfan Rhyd-Ddu, Sadwrn Rhagfyr 8fed, Y dydd wedi ei drefnu i blant Ysgolion Sul gan Miss Delyth Oswy.

TE PARTI: Trefnir Te Parti plant Ysgol Sul Tan-y-Coed, pnawn Llun, Rhagfyr 15, a dydd Sul Rhagfyr 21 cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yn Nghan-y-Coed am 2 o'r gloch. Y cyfarfod o dan arweiniad y gweinidog y Parch John Morris.

Atodiad DEINIOLEN

Y SEINDORF: Fe gynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Seindorf nos Sul, 11eg o Ionawr am 7 o'r gloch yn y Bandroom. Croeso cynnes i bawb.

Y GANOLFAN: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan ar 10 Rhagfyr. Ychydig iawn a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, ond da oedd deall bod y defnydd sydd ar y ganolfan yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall.

Aelodau'r pwyllgor rheoli yn ystod 1987 fydd y Cyng. Pat Larsen, Cyng. Jacob James, Mr Phil Edwards, Mr W J Eames, Mr Glyn Tomos, Mr Myfyr Parry.

Y chwech arall, a etholwyd trwy bleidlais, yw - Mr John Jones (Cyngor Eglwys), Parch Trefor Lewis (Eisteddfod Gwaun Gynfi), Mrs Gloria Thomas (Guides), Mr Colin Worth (Clwb Snwcer), Mrs Eirlys Williams (Merched y Wawr), Mrs Valmai Williams (Ysgol Feithrin).

Bydd y pwyllgor newydd yn cyfarfod yn y Caban am 7 o'r gloch, nos Fercher 14 Ionawr 1987.

Yn ystod y flwyddyn newydd, gwneir apêl ar i ysgrifenyddion cymdeithasau'r pentref roi gwybod i ysgrifennydd pwyllgor y ganolfan pan fwriedir cynnal unrhyw fath o weithgarwch. Byddai hyn yn ymdrech i osgoi cynnal mwy nag un gweithgarwch ar yr un noson.

Gwybodaeth am y llun o bensiynwyr Deinioleu a ymddangosodd yn rhifyn Tachwedd o'r Eco. Trip ydoedd o gwmpas Sir Fôn. Roedd y Clwb yn cyfarfod bob wythnos yn hen le'r Llang Brydeinig a oedd yn Stryd Newydd pryd hynny. Does yr un ohonynt yn fyw heddiw. Tynnwyd y llun yn nechrau'r chweddegau.

Diolch i Mrs Eirwen Roberts, Rhydfadog am y wybodaeth.

Ymateb i luniau a ymddangosodd yn rhifyn MEDI o'r Eco

Llun o "barti actol" a dynwyd o flaen adeilad gwaith coed, Ysgol Dolbadarn, Llanberis yn 1927, ac nid "Llanberis County School" fel yr ymddangosodd yn rhifyn Medi.

Dyma enwau'r actorion: Rhes gefn - John Alwyn, Rallt Goch; Arfon Cae Esgob; Bobi Owens, -?; Jac Idan House; Iorwerth (Ioi). Rhes isaf - Hywel a Tomi (Portar); Moi Pyllau dŵr; Evie Oliver; Selwyn Bee Hive; Robert Arthur; Elvan Kitchener; Dafydd brawd Cledwyn (gŵr Maria); Dic (chips) a Tow, William Madog Jones o Lanelwy, gynt o Lanberis.

Nid "Trip Ysgol Sul" oedd y llun ar y Bont.

Pont oedd hon yn croesi'r rheilffordd o'r cae pêl-droed i lan llyn Padarn, Llanberis. Byddem fel plant yn gorwedd ar y bont i gael "MYGIAD" o fŵg y trê.

Tynnwyd y llun gan Mr Sugden, ffotograffydd oedd yn byw yn Stryd Ceunant o gwmpas 1923-24. Medraf enwi nifer o'r plant, ac yn eu mysg yr wyf i mewn cap llongwr, sef William Madoc Jones, (Llanberis gynt), perchen y lluniau.

(Pryd, pwy lle)

Criw o hogiau Chwarel Dinrowig. Emrys, Nant Peris; Wil, Hafod, Llanberis; John Ellis, Min-y-Nant; Wil Jones, Pont Cafn; John Sam; Dafydd Pen Gwaith; Bob (lon Bost); Hugh Hughes (Ty Capel Wesla); Bledwyn, Wil Morgan a brawd Megan Maes Llwyn. Nid wyf yn cofio enwau y rhes isaf.

•••••

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

STERMAT
OFFER Tŷ A GARDD

CAERNARFON

Ffôn: 76506

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn
ystod y flwyddyn



Mae
**Richard Pierce
Jones**
Perchenog Newydd

**TAFARN Y
GORS
BACH**



LLANDDEINIOLEN
yn dymuno
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i
gwsmeriaid hen a newydd
Ar agor Fore a Nos Nadolig
am y tro cyntaf

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

CYFARCHION YR WYL: Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r hen a'r methodig sydd unai gartref, yn yr ysbyty neu yng Nghartref yr Henoed, hefyd i blant yr ardal sydd adref ar eu gwyliau dros yr Wyl.

CROESO: Croeso gartref i'r ddau frawd, sef Brian a Derek Roberts, adref ar eu gwyliau o'r Aifft dros y Nadolig. Dyma'r Nadolig cyntaf i Brian adref gyda'i deulu ers rhai blynyddoedd; hefyd i Mr Peter Shipley, "Siop Spar" sydd adref o Saudi Arabia.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â'r rhai canlynol yn eu profedigaeth:- Mrs Gwyneth Davies, 5 Olgra Terrace, ar golli ei brawd Emyr o Fflint yn sydyn iawn; Mrs Katie Lewis, Dol Elidir; Teulu Mrs Nellie Morris, gynt o Stryd Turner; Mrs L Jones, Eithinog, ar golli ei brawd o Lanrug; Mr Brynley Roberts, 23 Stryd Goodman, a'r teulu oll ar golli ei fam o Lanrug.

DYMUNIADAU DA: I Mrs Kate Williams a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn bedwar-ugain oed.

I Janet Hughes, Beech Bank a Ffion Jones, Llain wen ar eu pen-blwydd yn ddeunaw oed ar Ragfyr 3.

I Carl Roberts, Stryd Goodman, a fydd yn ddeunaw oed ar Ragfyr 28.

Dymunwn yn dda i Mrs Dilys Hughes a Mrs Annie Martin Owen, sydd wedi symud i Gartref yr henoed, Bron Eryri. Gobeithio eich bod wedi cartrefu.

I Mr Glen Clarreda, sydd wedi symud o'r ardal i fyw;

I Mrs Nancy Hughes (mam Mrs Delyth Roberts, 14 Maes Padarn) sydd wedi symud i'r ardal i fyw o Lanwnda. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

PEN-BLWYDD HAPUS: i Noel Owen, 1 Maes Derlwyn, Llanberis sydd yn cael ei ben-blwydd yn 49 oed, Rhagfyr 25: oddi wrth Olive, Andrew, Linda, Huw a Darren bach, Chris, Anne a'r plant, mam, Nerys a Llino.

DYWEDDIO: Dymuniadau da i Stephan, 33 Dol Elidir a Pauline ar achlysur eu dyweddiad.

GENI: Dymuniadau da i Carol a'i gŵr, Stryd Newton, ar enedigaeth eu merch fach, Sarah. Mae nain a taid, sef Gwyneth a Jack Parry, Stryd Bethesda, wedi gwirioni o fod yn daid a nain am y tro cyntaf.

I Lorraine a George ar enedigaeth eu merch fach Ruth, chwaer fach i Esther a Ben. Gobeithio dy weld adref gyda'r un fach yn fuan Lorraine.

I Norman a Mair Jones, 8 Stryd Yankee ar enedigaeth eu mab, Richard Wyn ar Dachwedd 16, brawd bach i Monica Wyn.

I Rhian Williams (merch Mr a Mrs Bobbie Williams, gynt o Bryn Celyn, Llanberis) ar enedigaeth eu mab bach cyntaf Barry.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i Mrs Brenda Roberts, 23 Stryd Goodman, sydd wedi disgyn a brifo ei braich, hefyd ei merch Heather Jones, Stryd y Ffynnon sydd wedi brifo ei llaw.

Mr Dick Jones a'i wraig, 4 Maes Padarn;

Miss Gwyneth Jones, 4 Stryd Siarlot. Nia Williams, 26 Stryd Fawr.

Mr Wil Roberts, Ffordd Capel Coch sydd wedi cael ei daro yn wael eto.

Mr Alan Parry, Stryd Turner, sydd wedi dychwelyd i ysbyty Lerpwl.

Mr Derek Robert, Stryd yr Wyddfa, sydd newydd ddychwelyd o Ysbyty Gwynedd.

Mrs Dilys Hughes, (gynt o Plas Tirion Bungalows)

Mr Gwilym Jones, Maes Padarn, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Mrs Annie Jones, Plas Tirion Bungalows.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs Katie Williams, Stryd Turner, ddiolch i'w theulu ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a phob dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed.

DIOLCH: Dymuna Margaret a Huw Griffith, Llain Wen ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Arian.

DIOLCH: Dymuna Mr Alan Roberts a theulu'r diweddar Idwal Roberts, Stryd Newton, ddatgan eu diolchgarwch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth sydyn.

Dymuna Nicola Prydderch, Bronallt, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

FIDDLER ON THE ROOF: Aeth criw o aelodau Sefydliad y Merched a chyfeillion eraill i Theatr yr Arcadia yn Llandudno ar nos Wener, Tachwedd 28 i weld cynhyrchiad cerddorol "Fiddler on the Roof". Yr oeddym i gyd wedi mwynhau ein hunain yn fawr. Diolch i Mrs Dwynwen Roberts am drefnu y noson.

DIOLCH: Dymuna Miss Gwyneth Jones, 4 Stryd Siarlot, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ym Mangor.

CROESO ADREF i Mr Richard Kenneth Jones a'i ferch, Nerys o'r America. Byddant yn treulio y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd gyda'r teulu yma yn Llanberis ac yn Llanrug.

DIOLCH: Dymuna Nia Williams, 26 Stryd Fawr ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ôl ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd y Cyfarfod Blyneddol yn y Ganolfan ar Dachwedd 27, dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Darllenwyd yr Adroddiad Blyneddol gan yr ysgrifenyddes, ac adroddiad o'r cyfrifon gan y drysoryddes.

Croesawyd Mrs Vera Hughes a'i chyfaill o Fethesda i arolygu y gwaith o ethol Swyddogion a phwyllgor ar gyfer 1986-87. Yn ystod y pleidleisio cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs Hughes am weithgareddau y Sefydliad.

Dyma ganlyniad yr etholiad: Llywydd: Mrs Hannah Jones; Is-lywydd: Mrs Betty Humphries; Ysgrifennydd: Mrs Helen Morris; Trysorydd: Mrs Glenys Jones. Pwyllgor: Mrs Betty Humphries, Mrs Hannah Jones, Mrs Helen Morris, Mrs Dilys Phillips, Mrs Dwynwen Roberts, Mrs Glenys Jones, Mrs A B Jones, Mrs Jan Davies, Mrs Jean Elis, Mrs Katie Griffiths, Mrs Arvon Evans, Mrs Katie Williams. Y Gwestwagedd oedd Mrs Betty Humphries, Mrs Jean Elis, Mrs Mair E Owen. Diolchwyd i Mrs Hughes a'i chyfaill ac hefyd i'r gwestwagedd gan Mrs Katie Williams a Mrs Rhona Thomas. Enillwyd y raffl gan Mrs Rhona Thomas.

YSGOL DOLBADARN: Ar ddydd Iau, Rhagfyr 4, 1986 aeth Adran y Babanod i gyd i'r Coleg Technegol ym Mangor i weld Drama Gŵyl y Geni a berfformiwyd gan fyfyrwyr y Coleg. Yn ôl y dystiolaeth, mwynhaodd pawb ei hun yn fawr iawn. Aeth Mrs Jane Roberts gyda'r Dosbarth Meithrin, Mrs Gwen Hughes, Mrs Eirlys Pierce, Miss S W Owen a Miss Marion Davies yn goruchwyllo'r cyfan. Trannoeth yn y gwasanaeth boreol canmolodd y Pennaeth mewn Gofal y plant bach ar eu hymddygiad. Dywedodd yr Athrawon eu bod wedi ymddwyn yn rhagorol ac yn gredid i'r Ysgol.

DYMUNIADAU DA i Marc Parry, Stryd Fawr ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Ragfyr 4.

I Michael Robert, 1 Stryd y Ffynnon, sydd wedi ymuno â'r Fyddin.

I Glenys (gynt o Dol Elidir) ac Arthur Clark, ar enedigaeth eu merch fach gyntaf, Mae Glenys yn ferch i Mr a Mrs Meirion Jones, Dol Elidir.

YSGOL FEITHRIN: Dymuna Mrs Catherine Williams, ddiolch yn fawr i'r mamau ac i bawb a wnaeth y Noson Goffi at yr achos uchod mor

llwyddiannus.

PRIODI: Dymuniadau da i June Williams, 6 Maes Padarn a Don Fraser ar achlysur eu priodas ar Rhagfyr 6ed.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion

GWELLHAD BUAN i Mrs Smith, Coed Gwydr a Clare Hensel sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN fel ardal â Mrs Winnie Carpenter (gynt o Tan y Gadlas) â'i merch Pamela yn eu profedigaeth o golli priod a thad.

Cynhelir yr 'offeren' fel arfer yn Eglwys St Peris.

DRAENOG



"Pwy yw y rhain sy'n dod i'r ddinas ar y bryn. Yng ngolau'r seren dlos Ar gefn hen gamel gwyn?!!"

Dymuna Tom a Jenny Williams, 23 Heol Eleanor, Caernarfon, ddiolch yn fawr i'r meddygon a staff ward Dulas, Ysbyty Gwynedd. Hefyd i'r teulu, cymdogion a ffrindiau yn Llanrug, Llanberis a Chaernarfon am y cardiau a'r dymuniadau da.

NOSON O GAROLAU

gyda Seindorf Llanrug Ar nos Lun, Rhagfyr 22ain am 7 o'r gloch, cynhelir noson o ganu carolau yn Ystafell y Seindorf, Llanrug. Bydd mins pei a phaned ar gael am bris rhesymol. Croeso cynnes i bawb

Bistro
Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: LLANBERIS 871278

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Danny a Nerys Roberts a'r holl staff



CENTRAL GARAGE

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb yn
Llanberis a'r Cylch
oddi wrth

LLANBERIS.
Ffôn: 870202

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI: Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yr Eisteddfod yn Neuadd y Ganolfan am 7 o'r gloch, **nos Wener, 23 Ionawr, 1987.** Estynnir gwahoddiad cynnes i'r Cyfarfod i bawb sydd â diddordeb yn y Steddfod. Yn y Cyfarfod hwnnw ceir cyfle i leisio barn ar Eisteddfod 1986, ac i awgrymu gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Tra canmolir cefnogaeth y pentrefwyr ar ddyddiau cynnal yr Eisteddfod, tennau iawn yn nifer y rhai fu'n troi i fyny i Gyfarfodydd Cyffredinol y gorffennol, ac felly apeliwn arnoch i nodi'n arbennig y dyddiad uchod, ac i wneud ymdrech bendant i fod yn bresennol.

CYNGOR EGLWYSI DEINIOLEN: Gair i atgoffa'r pentrefwyr am y Gwasanaeth Nadolig sydd i'w gynnal gan ddisgylbion Ysgol Gwaun Gynfi yng Nghapel Ebenezer am 5.30, nos Sul 21 o Ragfyr. Mae'r Prifathro a'r Staff wedi bod wrthi'n brysus yn trwytho'r plant er perffeiethio'r morlyth. Dewch yn gofio gwefr a gorfoledd Gŵyl y Geni. Gwneir casgliad yn yr oedfa tuag at Apêl Sgannudd Corff, Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH: Dymuna Mrs Buddug Jones, 8 New Street, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymodigion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddyn ei phroffedigaeth o golli ei gŵr Arfon. Diolch am y rhoddion a dderbyniwyd at Apêl Sganiwr Ysbyty Gwynedd. Cafwyd swm o £161.

Manteisia Buddug ar y cyfle i Ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

DIOLCH: Dymuna Monica a Michael Owen, 17 Pentre Helen, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llw cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab, Kevin Wyn, ŵyr i Moreen ac Alun Evans, 32 Stryd Newydd. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH: Dymuna Tracy a Joe Demicoli, Malta, gynt o 15 Pentre

Helen, Deiniolen, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llw cardiau ag anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab, Mark Lee Paul, ar Hydref 17, 1986. Hefyd dymunant Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Joyce a Gwyn Pritchard, 9 Ffordd Hampton, Caernarfon, ddiolch i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am y llw cardiau ac anrhegion gwerthfawr a gafwyd ar enedigaeth eu mab bychan Aaron Wyn, ŵyr cyntaf i Glenys ac Alun, Maes Wylfa.

CLWB SNWCER: Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y clwb yn ystod y Ffair Hydref a gynhaliwyd yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd yr uchod nos Lun, Tachwedd 17 yn y Caban, Ysgol Gwaun Gynfi. Y llywydd oedd Mrs Jane Eirlys Williams. Y wraig wadd oedd Mrs Eluned Bebb Jones, Bangor. Cafwyd sgwrs hynod o ddiffr ganddi am fynd hyd glannau môr i chwilio am flodau a phlanhigion ac hefyd am y twyni tywod sydd yn cael eu hachosi gan y gwynt. Dangosodd trwy gyfrwng sleidiau enghreifftiau o wahanol flodau a phlanhigion. Diolchwyd i Mrs Jones, gan y llywydd, hefyd Mrs Jane Jones a Mrs Megan Morris. Darparwyd paned o de gan Mrs Gwladys Jones a'r llywydd. Enillwyd y raffl gan Miss Kathleen Jones, rhoddedig gan y llywydd.



Alaw Mair Huws a ddaeth yn gyntaf ar adrodd yn Eisteddfodau Chwillog a Llanaelhaearn.

1986

Blwyddyn derfysglyd, a Magi mewn grym!
Cwmwl Chernobyl dros dir pori y drum;
Ac amaethwyr Eryri, wedi eu prynu yn rhad!
Dim ond dechrau y diwedd ar fywyd cefn gwlad!!

Apartheid yn Affrica i sathru'r dyn du,
A chysgod Bom niwcliar dros aelwyd bob tŷ!!
Mae'n anodd bod yn Gymro, wrth chwilio am waith,
Dim ots am yr hogia' yng ngharchar yr laith!

Dyma ni unwaith eto, a Nadolig wrth y drws,
Gyda chelyn, a hosan, ac addrun mor dlws!
A gofiwn ni heddiw ymysg bwrllwm y "Ffair"
Am eni yr Iesu mewn preseb o wait?

John V Morris,
Rhianfa, Deiniolen.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?
YDI HI'N SAFF I SIŌN CORN DDOD
LAWR Y'CH SIMDDE CHI?!
Cysylltwch â Dave Wood
'INSULAFUE'
Yr Arbenigwr ar leinio simneiau
FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Prif destun sgwrs y dyddiau diwethaf hyn yw'r tywydd yr ydym wedi ei gael. Fe gawsom fwy nag arfer 'rwy'n sicr o wynt a glaw, cyn ac ar ôl i dymor yr Adfent ddechrau. Hwn yw'r tymor sy'n ein cymell i ystyried gwerth a neges Gŵyl y Nadolig. Dyma'r canolbwynt a ddefnyddir bellach gan Gristionogion i rannu amser; gyda'r canlyniad ein bod yn meddwl yn nhermau blyneddol Cyn Crist a blyneddol ar ôl Crist. Mae ein blwyddyn newydd felly yn dilyn y dydd y ceir y lleiaf o oriau goleuni - y dydd byrraf fel yr hoffwn ei alw. Wedi'r trobynt hwn fe ddaw gobaith gweld y dydd yn 'ymestyn'.

LLONGYFARCHIADAU: Mae'n bleser o'r mwyaf gennym longyfarch Miss Marina Bryn Roberts, merch ieuengaf Mr a Mrs Ifan Bryn Roberts, Tŷr Ysgol, ar ei dywedd i Mr John Eifion Jones, Hendre Cennin, Garndolbenmaen.

Ar ddydd lau, Rhagfyr 11eg fe ddathlai Mrs Catherine Ellen Jones, Foel Gron (gynt o Dan Buarth Uchaf) ei phen-blwydd yn 89 oed. Tybed a gaiff nerth i gyrraedd ei chant oed?

Fe estynnwn longyfarchiadau yn ogystal i Mr O R Williams, cyn-ohebydd Dinorwig i Eco'r Wyddfa - yntau yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 ar Ragfyr 19eg. Symudodd ef o'r ardal i fyw yn i dai

Rhydfadog, Deiniolen.

Mae Mrs John Roberts, 3 Maes Eilian, yn treulio rhai dyddiau gyda'r ferch Hefina ar ôl bod yn yr ysbyty yn ad-ennill ei nerth yn ôl. Brysied hithau a'i gŵr yn ôl i Faes Eilian.

EGLWYSI'R ARDAL: Oedfaon am 2 o'r gloch a gynhelir yn Ninorwig (MC) bellach dros dymor y gaeaf o leiaf, ac mae'r brynhawnol weddi ychydig yn ddiweddarach yn St Mair, tra mae Sardis (B) yn cynnal Ysgol Sul am 2 ac oedfa bregethu am 5.30 bob yn ail Sul, a'r Suliau eraill oedfa am 2 o'r gloch yn unig. Y Sul olaf yn Nhachwedd, fe wasanaethai Esgob Bangor yn St Mair ac ar fore dydd Nadolig am 9.30 fe ddisgwylir yr Hybarch Elwyn Roberts - Archddiacon y Gadeirlan i weinyddu Sacrament y Cymun Bendigaidd. Fe estynnir croeso St Mair i'r capeli eraill gyd-uno â hwy i ddathlu Gŵyl y Geni.

Dymuna warden St Mair - Mrs Jennie Williams, 12 Maes Eilian, ddiolch i Mr a Mrs Andrew Griffith, Tan Bwlch am ganiatau i'r rhai fu'n tacluso y tu allan i'r Eglwys gadw eu defnyddiau mewn diogelwch.

DIOLCH:

Dymuna Mrs John Roberts, 3 Maes Eilian, ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

DYSGWYR DINORWIG



(Fe dderbyniwyd â ganlyn oddi wrth Mrs Sarah Anderson, Pen-yr-Allt, Fachwen, ac fe'i hysgrifennaf heb gywiro'r orgraff na'r arddull)

Meddyliau Dysgwyr Dinorwig

'Rydw i isio dysgu Cymraeg er mwyn i mi siarad efo fy mhlant i a darllen straeon iddynt. Rwy i iso siarad Cymraeg efo fy ffrindiau. Mae fy merch i yn hapus yn y 'creche' ac mae hi'n tri siarad yn Gymraeg. Rwy i'n hoffi dysgu Cymraeg achos dwi'n medru siarad Cymraeg efo'r bobl yn Ninorwig. Mae fy mhlant i'n siarad Cymraeg yn yr ysgol, felly dw i eisio dysgu hefyd. 'Rwy'n mwynhau y cwrs yn Ninorwig, ac mae fy mab Nici yn hoffi y cwrs yn fawr. Rwy i'n dysgu siarad Cymraeg efo'r gŵr yn yr ysgol Dinorwig. (Y Ganolfan) Mae gynnwys i hwyli yn y dosbarth wrth ddysgu Cymraeg - mae'n "grêt". Bob wythnos mae hi'n wyntog iawn yn Ninorwig. Dwi'n cyfarfod â pobl newydd.

GAIR GAN YR ATHRAWES:

Mae hi'n bleser mawr dysgu'r dosbarth hwn. Maent yn gweithio'n galed iawn ac yn cyd-weithio'n arbennig o dda. Mae eu cymhelliant hefyd yn glir. 'Rwy'n meddwl bod hyn oherwydd bod nifer fawr ohonynt yn y cylch lleol, ac yn dysgu'r iaith er mwyn ei defnyddio gyda'u cyfeillion a'u cymdogion cyfagos, ac er mwyn chwarae rhan llawn yn y gymdeithas.

Mae'r ffaith bod y plant bach yn defnyddio'r Feithrinfa wedi bod yn hwb mawr i'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Mae'n rhaid gwneud y Feithrinfa yn llwyrddiannus. Mae gan y cynllun lawer i'w gynnig i'r rhai sydd yn ymuno ac i'r gymuned mewn pentref fel Dinorwig. Tybed a fuasai'r pentrefi eraill yn ystyried dilyn yr un patrwm?

Wesley Carron

W.H. JONES
Trydanwr
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 871470

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda



EVAN DAVIES

Gwerthwr Glo



Ffôn: WAUNFAWR 341

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD GYNNES
I'N CWSMERIAID I GYD !

CARPEDI

GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer diweddaraf,
sydd ar gael.
Am fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb

Mae

LLEUFER a NELMA
PRITCHARD

CANOLFAN
CARPEDI
WAUNFAWR

yn dymuno diolch am
bob cefnogaeth yn
ystod y flwyddyn.

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
i chwi oll.



NADOLIG LLAWEN
a BLWYDDYN NEWYDD
DDA

oddi wrth bawb
ym

MODURDY
Whiteways
WAUNFAWR

BYSIAU I'W LLOGI

Ffôn: Waunfawr 226

SMITHY GARAGE

WAUNFAWR 518
(W.M. CATT)

GWASANAETH
GLANHAU METAL
EFO PEIRIANT
ARBENNIG e.e.

Olwynion
Alwminiwm, Injans
Beiciau Modur ac ati

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

Edgar, Carys, Elain, Gwenno a
Dewi; Tom, Annie, Nerys a
Glenys

YSTORFA TŶ NEWYDD WAUNFAWR 594


Bwydydd, Melysion, Ffrwythau
a Phapurau Newydd



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

EMRYS OWEN

PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Agricultural Engineering)



- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 253

NEWYDD AGOR!



SIOP BAENT STORFA TŶ NEWYDD

BRWSHUS . TYRPS
POLIFFILA . BWCEDI
'HARDWARE' AC ATI

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid
oddi wrth

Huw ac Eirlys Griffith

Llythyrdy WAUNFAWR

Bwydydd, Ffrwythau,
Papurau newydd a
Llysiau Ffres

Ffôn: Waunfawr 651

Mae
Barbara,
Gwyn
a Hazel
**SIOP CHIPS
WAUNFAWR**

Ffôn: 683

yn dymuno diolch i
bawb a'u cefnogodd
yn eu misoedd cyntaf
yn y siop

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i
bawb yn y pentref



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth

HUMPHREY ROBERTS

CLUDWR

Rhosgoch,
WAUNFAWR

Ffôn: 313

a

Stâd Cibyn,
CAERNARFON

Ffôn : 5950



SNOWDONIA FIRE

PROTECTION

YR HEN EFAIL

WAUNFAWR Ffôn 235

Offer Diffodd Tân – Masnachol ac i'r Cartref
Goleuadau argyfwng Larwm Tân

Offer canfod mwg ar gyfer y cartref

Hyn oll, a llawer mwy yn ein siop newydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth David a Peter Greasley

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr)

NOSON LAWEN: Nos Wener, Tachwedd 21 cynhaliwyd Noson Lawen lwyddiannus tros ben yn y Ganolfan a'r elw i gronfa'r Estyniad. Cymerwyd rhan gan barti Clychau'r Grug a Ffion Williams, Llanrug; Robert Jones y consuriwr gyda Allison o Fangor; Parti sgets capel Seilo, Caernarfon; Rhys Sion; Gerallt Williams; Meira Clark Turner a Pharti'r Helwyr. Cyfeilydd y noson oedd Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail a'r arweinydd oedd Rol Williams. Talwyd y diolchiadau am noson ddifyr tros ben gan Mr W V Jones, Liverpool House, llywydd y pwyllgor. Yn ystod y cyfarfod gwnaed casgliad tuag at gronfa'r "Plant mewn Angen" y BBC. Yn sgil lwyddiant y noson, y bwriad yw cael noson gyffelyb eto yn y gwanwyn neu ddechrau'r haf.

DOSBARTH WEA: Bydd y dosbarth WEA yn cychwyn nos Lun, Ionawr 19 yn yr ysgol gynradd. Testun y chwe cyfarfod fydd "Yr anifail yn ei gynefin", a'r darlithydd fydd Mr Duncan Borwn. Am fanylion pellach cysyllter â'r trefnydd lleol, Mr Rol Williams, Ardwyn.

DIOLCH: Dymuna Morris a Nancy Thomas, Tan-y-Foel, ddiolch yn gynnes i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.

PLAID CYMRU: Cynhaliwyd Ffair Nadolig gan gangen Waunfawr o Blaidd Cymru, nos Wener, 5ed o Ragfyr yn y Ganolfan am 6.30. Cafwyd noson lwyddiannus efo stondinnau amrywiol a lliwgar, raffl dyfalu pwysau'r deisen, enw'r ddoli a nifer o 'smarts' mewn potyn. Mawr oedd boddhad y plant yng nghwmni Sion Corn tra ymlaciodd eu rhieni dros baned a sgwrs. Diolch i bawb a ddaeth ynghyd, a gwerthfawrogi pob cefnogaeth yn fawr. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y cyd efo Cangen Llanrug, sef sgwrs gan Paul Nickson, am Newyn yn y Trydydd Byd, yn yr ysgol gynradd, Llanrug, am 7.20 nos Fercher, Ionawr 14, 1987.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cangen Waunfawr o'r Sefydliad yn festri Capel Croesywaun nos lau, Rhagfyr 4ydd, gyda Mrs Pat Parry, y llywydd, yn y gadair. Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion o'r cyfarfod diwethaf. Cynhelir Rali Garolau Sefydliad y Merched Arfon, yng Nghapel Brynrefail nos Fawrth, Rhagfyr 16 am 7.30 o'r gloch. Gwnaed trefniadau ar gyfer y Parti Nadolig a gynhelir nos Wener, Ionawr 2il yn Nhŷ Golchi, ger Bangor.

Cafwyd arddangosfa ddiddorol ar sut i wneud Melysion at y Nadolig gan Mrs Rhian Jones o Gaernarfon. Enillwyd y raffl, sef rhai o'r melysion, gan Mrs Catherine Jones a Mrs Jones, Eryri Wen, Bod Hyfryd

MERCHED Y WAWR: Mynd allan i ddathlu'r Nadolig fu hanes Merched y Wawr nos lau, Tachwedd 27. Cafwyd cinio Nadolig yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Croesawodd Mrs Glenys Williams, y llywydd, Joy Glyn a Pat Skidmore yn ôl i'r gangen, a chydymdeimlwyd â Pat yn ei phroffedigaeth. Anfonwyd cofion y gangen i Mrs Pritchard, Tref Eilian sydd yn yr Ysbyty wedi torri ei chlun. Bu'r pwyllgor yn glên iawn a gofalu bod pawb oedd yn bresennol yn ennill raffl. Diolch, dd Mrs Mary Vaughan Jones i Mrs Katy Jones am drefnu'r gwobrau ac i Mrs Evans a staff y Gwesty am y wledd. Bydd y cyfarfod nesaf at Ionawr 23ain, 1987 lle disgwylir Mr Norman Williams o'r Waunfawr i roi sgwrs am ei waith fel awdur a chynhyrhydd teledu.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd:

£40: Mrs J M Roberts, 9 Bryn Golau.
£25: Mrs Gweneirys Jones, Cartrefle.
£10: Mrs Laura Williams, Tros y Gors.

LLONGYFARCHIADAU: I Mr a Mrs Evan Hughes, 3 Bryn Golau, ar ddathlu eu Priodas Ruddem, Rhagfyr 14; ac

I Meirion a Catherine Jones, Crud yr Awel, ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch, Elliw Fflur i Linda ac Alan.

YR URDD: Daliwch ati os gwelwch yn dda i gasglu papur. Ar y funud nid oes lle gan yr Urdd i'w gadw, felly gofynwn i chi ei gadw gartref. Cewch wybod y dyddiad y byddwn yn ei dderbyn yn y Ganolfan yn nes ymlaen. Diolch yn fawr.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref o'r ysbyty i Marian Jones, 20 Stad Tŷ Hen, ac i Dic Rowlands, Bryn Golau. Gobeithiwn eu bont yn dal i wella.

YN YR YSBYTY: Bu i Mrs Pritchard, Tref Eilian, gyfarfod â damwain yn ei chartref pan syrthiodd a thorri ei chlun. Yr un yw'r stori yn hanes Miss Mem Pritchard, Weirglodd Goch. Ein dymuniadau gorau i'r ddwy a gobeithio, gyda phob gofal, y gwnant fwynhau'r Nadolig ac y cawn eu gweld gartref yn fuan yn y Flwyddyn Newydd. Hefyd, Mr R Jones, Cartrefle, Stad Tŷ Hen, sy'n parhau yn yr ysbyty ar ôl triniaeth.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB, YN ENWEDIG Y RHAI SY'N CWYNO GARTREF AC YN YR YSBYTY.

LLONGYFARCHIADAU: I Alun

Williams, Bro Waun, ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Llanaelhaearn, Tachwedd 29. Cipiodd y wobr gyntaf a chael cwpan yn y gystadleuaeth Cân Werin. Daeth yn ail gydag Wmffra ar y ddeuawd a daeth Meira Turner yn ail ar y Brif Adroddiad. Yn Eisteddfod Chwilog, Rhagfyr 6, daeth Alun ac Wmffra yn gyntaf ar y ddeuawd, Wmffra yn ail ar y Gân

Werin, a Meira yn ail ar y Brif Adroddiad. Llongyfarchion iddynt ar flwyddyn lwyddiannus iawn.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Tachwedd:

1af: D Davies, Nant y Mynydd.

2il: Dr Miles, Trefeddyg.

3ydd: Nan H Roberts, Bodrida.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

BEDYDD: Fore Sul, Tachwedd 23ain mewn gwasanaeth yng Nghapel MC Brynrefail, bedyddiwyd Urien Deiniol, mab Mr a Mrs Deiniol Evans, Pengwern, Cwm-y-Glo. Gweinyddwyd y Sacrament gan y Gweinidog, y Parch John Morris. Pleser oedd cael croesawu i'r oedfa aelodau agos o'r teulu o'r naill ochr i'r rhieni nad yw ardal Brynrefail yn ddiethr iddynt - nain Urien o ochr ei fam, sef Mrs Betty Pritchard, Rhosgadfan wedi ei magu yn y Cytir, a'i daid o ochr ei dad, Mr John Llewelyn Evans yn enedigol o Cwm-y-Glo. Ein dymuniadau da hefyd i Deiniol, Helwen ac Urien, fydd yn ymadael â Chwm-y-Glo cyn bo hir ac yn cartrefu ym Mryn Eglwys, Penisarwaun.

CYDYMDEIMLO: Mae ein cydymdeimlad fel pentrefwyr â Mrs Audrey Roberts. 'Rallt, a gafodd broffedigaeth yn ddiweddar o golli ei mam yn Lerpwl. Dymuniad Mrs Roberts yw cael datgan gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag ati yn arbennig felly gan yr oll o'i theulu yng nghyfraith fu'n gymaint o gymorth iddi yn ei galar.

CASGLIAD: Yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwnaed casgliad yn y pentref tuag at Gymdeithas y Beiblau. Casglwyd y swm o £28.75c ac fe'i trosglwyddwyd i Drysorydd Cangen Deiniolen a'r Cylch o'r Gymdeithas. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i'r casglyddion am eu gwaith.

PEDAIR CENHEDLAETH: Llongyfarchiadau i Mrs Hannah J Jones, 7 Trem Eilian, sydd yn hen nain am y pedwerydd tro. Ganwyd mab bychan i'w hŵyr Keith a'i briod draw yn Wellington, Seland Newydd. Mae Keith, wrth gwrs, yn fab i'r diweddar Mr Eurwyn Jones a'i briod a ymfudodd i Seland Newydd a chartrefu yn Auckland.

AR Y TELEDU: Nos Fawrth, Rhagfyr 23ain, bydd Mrs Betty Owen, Tros yr Afon, yn cymryd rhan mewn rhaglen ar S4C pryd y bydd yn sgwrsio â'r ddarlledwraig a'r gantores, Margaret Williams. Recordiwyd y rhaglen, sydd â naws Nadolig iddi, yn Ysbyty Gwynedd lle mae Mrs Owen yn dilyn ei galwedigaeth fel gweinyddes. Ceir cyfle i gyfarfod ag eraill o'r staff a chleifion rhai o'r wardiau ynghyd â chlywed canu nifer o garolau. Cofiwch wylïo!

PENODIAD: Llongyfarchiadau i Meinir Wyn Jones, 3 Trem Eilian ar gael ei phenodi yn Gynorthwywr Clercio yng Nghyngor Sir Gwynedd. Bydd Meinir yn gweithio yn adain cyflogau yr Adran Addysg. Ers mis Mai eleni, bu yn dilyn cwrs yng Nghynllun Hyfforddiant Ieuenctid dan nawdd y Cyngor Sir.

GENEDIGAETH: Dydd Sul, Rhagfyr 7fed, ganwyd merch i Mr a Mrs Bleddyn Owen, Tros yr Afon, a chwaer fach i Rhian. Mae'r teulu newydd symud i fyw i Fethel - ein dymuniadau gorau iddynt.



•••••

Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Marian
a Meirion

LLYTHYRDY
BETWS
GARMON


Ffôn
Waunfawr 233

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i
bawb oddi wrth

DAVID ac YVONNE
BEECH

Contractwyr Adeiladu

Rose Mount,
Waunfawr
Ffôn: 425



GWAITH LLEDR A GWYDR: Daeth y gyfres o ddosbarthiadau nos dan nawdd Sefydliad y Merched i ben nos Fercher, Rhagfyr 3ydd, wedi nosweithiau o weithio diwyd a hynny mewn cwmni hwyliog. Cafwyd arddangosfa o'r cynnyrch ar ddiwedd y noson a thalwyd diolch i Miss Gillian Smith, yr athrawes am ei chyfarwyddyd a'i hamynedd nodedig drwy gydol y gwersi. 'Roedd yn glod iddi fod yr oll o'r aelodau yn berchen ar enghreifftiau o grefftwaith mor gymen a defnyddiol ar derfyn y tymor. Diolch hefyd i Mrs Pat Jones am drefnu'r dosbarth a fu'n gymaint o lwyddiant.

NEWID ARDAL: Tra'n teimlo chwithdod mawr o'u colli o'r pentref, mae ein dymuniadau gorau i ddau deulu sydd wedi gadael Tai Orwig yn ddiweddar, sef Mr a Mrs Gwilym Williams sydd wedi cartrefu ym Methel a Mr a Mrs Maldwyn Jones, Alwen a Caron sydd wedi symud i'w cartref newydd yn Nant y Glyn, Llanrug.

Agor Ffiniau'r Gorffennol

GWIBDAITH I'R IWERDDON

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Dowch gyda mi am dro i Dde Iwerddon yn y llong wen a elwir St. Columbia. Bûm ar y 'trip' fel y dywedir ar lafar, am bum niwrnod o ddydd Mawrth 21 Hydref hyd ddydd Sadwrn, 25 Hydref eleni, 1986. Cychwyn o Gaergybi a chyrraedd Dun Laoghaire, De Iwerddon.

Pe buasai lle yn caniatáu buaswn yn falch o roi enw pob un o'r parti, ond does ddim ond lle i roi enwau'r ardaloedd - yr oedd pobl o Lanrug, Bethel, Llandegfan, Llanberis, Mynytho, Caernarfon, Caergybi, Rhosneigr, Bangor, Llandyrnog, Felinheli a Chonwy wedi dwad ar y trip.

Ken Williams KMP Llanberis, a Gwilym Rees Parry, Llanrug drefnodd y trip ac heb arfer gweniaith na gormodiaith yr oedd wedi ei drefnu yn berffaith. Y mae'r llythyrau a dderbyniwyd wedi dwad adref yn tystio hynny. Diolch i bawb am y llythyrau sy'n cael eu cadw'n ofalus, wrth gwrs, a'u gwerthfawrogi. Dafydd Wyn Evans o Ddeiniolen oedd y gyrrwr, a haedda farciau llawn. Gwilym Rees Parry sy'n arwain (courier) am bedwar diwrnod, a Donald O Donovan, (dyn dymunol dros ben) o'r Iwerddon arweiniodd (courier) ar ddydd Gwener er mwyn i Gwilym gael gorffwys. Yr oedd Cymry a Saeson yn y parti.

Yr oedd gan bob un o'r parti bartner neu bartneres. Mrs Lloyd, Segwen, Llandyrnog, Dinbych, chwaer Oswald Davies oedd fy mhartneres i ac un iawn oedd hi hefyd. Cawsom sgwrsio difyr a digon o hwyl. Fe ofalodd hi amdanaf fi a mi ofalais innau amdani hithau, a mi ofalodd pawb am ei gilydd fel un teulu dedwydd ac yr oedd pawb yn hapus. Y peth cyntaf a gefais gan Mrs Lloyd wrth fy ochr oedd englyn - "rhochw o yn eich copi" meddai. Dyma fo:

Cartref Henoed
Anobaith eu hwyneb - a welaf
Yn holi'n ddi-eiriau,
Pa ryw werth sy mewn parhau
Ein hoes, a neb ein heisiau?
R E Jones, Llanrwst

Yr oedd pawb yn y bws yn sgwrsio a chwerthin ond er hynny yr oeddym yn deall ein gilydd. Meddai rhywun "Glywsoch chi hon?" "Yn Brynsiencyn mae'r brain sionca." Rhywun arall wedyn yn dweud "Yn Bryngwran mae'r brain gorau" a dachw linell arall er mawr ddiffrwch, "Yn Bryndu mae'r brain da."

Ha-ha-ha - llond y bws yn chwerthin. Fuo erioed barti o Gymry na fyddai yno ganu a chawsom ninnau ddigon o ganu alawon ac emynau Cymraeg a Saesneg gan fod Cymry a Saeson ar y trip.

Pan oeddym yn mynd i fewn i Tralee tarodd rhywun y gân boblogaidd "Rose of Tralee". Gwn yr hoffwch gael cyfieithiad Cymraeg o'r gân yma a

gyfansoddwyd gan fy nhad.

Rhosyn Trall (cyfieithiad)
Y lloer dros y mynydd esgynai yn wylaidd,
A'r haul â ymgillai islaw y glas li,
Pan awn gyda'm cariad at ffynnon risialaidd,
A saif yng ngogoniant tiws Dyffryn Trall.
Roedd hi'n brydferth fel rhosyn yr hafddydd i'w swyno
Ond nid ei phrydferthwch enillai'm serch i,
O na! ond y gwir fyth o'i llygad yn gwawrio
Wnaeth i'm garu Meri, hoff Rosyn Trall.

Cysgodion yr hwyr oedd fel mentyll yn disgyn,
A Meri yn gwrandao â'i gwen arnaf i,
A'r lloer welw'n taenu ei golau trwy'r dyffryn
Pan 'nillais i galon hoff Rosyn Trall.
Roedd hi'n brydferth fel rhosyn yr hafddydd i'm swyno,
Ond nid ei phrydferthwch enillai'm serch i,
O na! ond y gwir fyth o'i llygad yn gwawrio
Wnaeth i'm garu Meri, hoff Rosyn Trall.
Glan Rhyddallt, 1945

Gofynnodd llawer "Sut dywydd gawsoch chi?" Atebais "Pob math o dywydd, a hynny weithiau yr un diwrnod. Haul braf fel canol haf pan yn cychwyn allan yn y bore, cyn pen awr cawod o genlysg caled fel gaeaf, cawodydd o law trwm, niwl trwchus, oerni, gwynt cryf, fel y dywedodd rhywun, "Y peth gorau mewn bywyd yw amrywiaeth." Wel, chafodd neb gyfle i ddisflasu ar y tywydd 'roedd clarc y tywydd yn rhoi digon o amrywiaeth i ni.

Buom yn aros mewn tri gwesty glân, gyda phob moethau ar ein cyfer yn ogystal ag angenrheidiol. Meddyliwch am danllwyth mawr o dân coed yn ein croesawu yn y gwestai. "rhatach na thrydan" medda nhw! Yr oedd teleffon wrth ochr y gwely, ystafell baddon a thoiled yn yr ystafell wely, lifft i fynd i fyny rhag cerdded y grisiau, tân trydan i gynhesu ystafell pawb - gellwch enwi unrhyw beth, yr oedd yno - ym mhob gwesty cawsom fwyd da a digonedd ohono, digon o amrywiaeth bwyd hefyd, anghofiwn ni byth y cig eidion a gawsom yn y gwesty yn Galway.

Yr oeddwn wedi addaw anfon cardiau drwy'r post ac 'roedd hi'n dipyn o fraw gweld nifer o lythyr gludwyr y post yn sefyll ar ochr y stryd a cherdyn mawr ar eu mynws "We are on strike". Wel a'n helpo! ond wrth gwrs, doedd hi ddim yn streic ym mhob man felly fe bostiwyd y cardiau yn saff.

Yr oedd rhyfeddodau dirif i'w gweld



Croesi Afon Shannon

yn y wlad i gyd ym mhob man. Rhyfeddod oedd Llyfrgell Fawr Fawr Coleg y Drindod yn Nulyn: 200,000 o lyfrau gwerthfawr meddir.

Gwelwyd Eglwys Gadeiriol tuhwnt o hardd i fedru cael geiriau digonol i'w disgrifio. Buom mewn ffatri dilladau gwlan lle'r oedd bargeinion lawer. Gwelsom ddigon o fythynnod tô gwellt, a digon o fawn wedi ei dorri a'i stocio wrth y tai ar gyfer y gaeaf. Gwelsom gerrig ym mhob man am filltiroedd yn un lle. Gwelsom ddigon o fulod yn y caeau wrth deithio ymlaen. Gwelsom ddynes a'r mab yn begio ar y stryd yn Nulyn. Gwelsom fules o'r enw Sali yn cario ci ar ei chefn ac yn tynnu trol fechan.

Glas a Gwyn eodd lliwiau'r cabanau teleffon (kiosk) edrychent yn hardd hefyd. Llawer banc yn dangos poster "Have you got a bank account?" Gwelsom siop fawr a placard "Shop and Save"! Waliau cerrig oedd ym mhob man. Dim llawer o goed ond tomenydd o gerrig. Gwelsom ddefaid a gwartheg yn pori yn dawel ac ambell fuwch yn codi ei phen a meddwl "o ble daeth rhain tybed?"

Cawsom groesi afon fawr lydan Shannon ar long fechan ac wrth gwrs aros yn y bws i groesi. Yr oedd popeth i wneud cwpaned o goffi ar y bws yn hwylus dros ben.

Daeth ffermwr i fyny at y bws yn un lle bore Gwener. Yr oedd y ffermwr wedi gwneud llond poteli o win tatws a'i alw yn "Mountain Dew". Costiai'r gwin chwe phunt y botel. Credaf iddo werthu'r cwbl. Edrychai'r gwin fel dwfr.

Ar Gofadail hardd i gofio O'Donnell yn Nyffryn Cooma Kista, yr oedd y geiriau canlynol wedi eu hargraffu, "O Mother of Mercy, I place in the protection of Thy Holy Hands, my going out, my coming in, my sleeping, my waking, the sight of my eyes, the touch of my hands, the speech from my lips and the hearing of my ears, so that in

everything I may be pleasing to Thee and Thy own Beloved Son."

Rhaid i mi gofio sôn am y cyngerdd a gawsom un noson yng Ngwesty Galway Bay. Dan McCormack oedd yr organydd. Canodd Eammon Dobin a Paddy Murphy ddigon o ganeuon a ninnau yn uno weithiau. Cawsom ganu nad a'n ango! Gorffennwyd gyda Hen Wlad fy Nhadau.

Fel hyn yr oedd ffigyrau o un i ddeg yn darllen yn y Gaeleg.

H-aoin; Dó; Tri; Ceatra; Cuig; Sé; Seacht; Ocht; Né; Deic.

Go, romhat maith agat - Diolch yn fawr. Tá mé go maith - Yr wyf yn teimlo'n iawn.

Cawiltu? - Sut ydach chi?

Nos Wener yr oedd storm fawr ar y môr ac ofnem na chawsem groesi ac y byddai'n rhaid aros dros nos yn Iwerddon. Ond hanner awr wedi deg nos Sadwrn, pan ddaeth yr amser cychwyn adref mi ostegodd y dymestl ac yr oedd y môr yn llonydd fel llyn. Yr oedd dwy fil ar y llong yn dwad o'r Iwerddon a rhyw dri chant o foduron. Er fod y llong yn llawn welais i neb yn sâl. Yr oeddym yn cyrraedd Caergybi hanner awr wedi un yn y bore. Danfonwyd pawb yn ôl i'w gartref yn saff. Ni ddywedais yr hanner wrthych.

Mae popeth yn dda os yw'n gorffen yn dda!

"All's well that ends well!"

Diolch i bawb.

Edrychwn ymlaen rwan at gael trip eto!



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth



BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn:
LLANBERIS 870232
BARA FFRES A
THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr
CALOR GAS

ANRHEGION NADOLIG

Tun Cwstard Mari Sion - Buddug Medi: £3.50
Y Samariaid: £1.20
O Na Bai'n Ddu - Trevor Huddleston: £1.00
Nadolig: £1.15
Heddychwr - Ghandi: £1.00

Dim ond pump allan o dros 100 o deitlau a gyhoeddir gan

Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol,
Ysgol Addysg, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru,
Santes Fair, Lon Pobty, Bangor, LL57 1DZ
Ffôn: Bangor 351151, Est 6109

I'w gweld a'u cael o'r Ganolfan neu gan eich llyfrwerthwr lleol. Arddangosfa helaeth o adnoddau i'w gweld a'u prynu bob amser.

HUW GERAINT OWEN

Gosodwr Carpedi
(A phob math o lorïau)

Cil-y-mynydd

Waunfawr

Rhif ffôn:

Waunfawr 552

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth: Mr a Mrs Owen

Dyddiadur y Mis

Sadwrn 20:

BRYNREFAIL: Cinio Nadolig Clwb Gweithgareddau yn 'Henllys Hall', Biwmares.

LLANRUG: Cinio Nadolig y Seindorf.

Sul 21

DEINIOLEN: Gwasanaeth Nadolig gan blant Ysgol Gwaun Gynfi yng Nghapel Ebeneser am 5.30.

LLANRUG: Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr - Noson o Garolau am 5.30

PENISARWAUN: Gwasanaeth Nadolig 'Naw Llith a Charol' yn Eglwys Santes Helen am 2.00

Llun 22

PENISARWAUN: Parti Nadolig plant Ysgolion Sul Capel Bosra a'r Eglwys. Criw o garolwyr yn mynd o gwmpas y pentref.

LLANRUG: Noson o ganu carolau yn Ystafell y Seindorf am 7.00. Bydd Mins Pei a phaned ar gael.

BETHEL: Criw o garolwyr yn mynd o gwmpas y pentref.

CWM Y GLO: Disgo Nadolig Adran yr Urd yn yr Ysgol Gymuned am 6.00

Mercher 24

PENISARWAUN: Noswyl Nadolig yn Eglwys Santes Helen am 11.30pm

NANT PERIS: Noswyl Nadolig yn Eglwys Sant Peris.

Llun 29

PENISARWAUN: Ymweliad â Theatr Gwynedd i weld pantomeim "Jim Cro Crystyn".

IONAWR 1987

Gwener 2

WAUNFAWR: Parti Nadolig Sefydliad y Merched yn Nhŷ Golchi, ger Bangor.

Llun 5

ARDAL: Yr ysgolion yn dechrau tymor newydd.

Mawrth 6

BETHEL: Clwb Ffermwyr Ifanc yn ail-ddechrau yn y Neuadd Goffa am 8.00

Mercher 7

LLANBERIS A NANT PERIS: Cymdeithas y Chwiorydd.

Gwener 9

LLANBERIS: Te yr Henoed

DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00

Mercher 14

LLANRUG A WAUNFAWR: Cangen Plaid Cymru y ddau bentref yn yr Ysgol Gynradd yn Llanrug am 7.30, pryd y ceir sgwrs gan Dr Paul Nickson am 'Newyn yn y Trydydd Byd'.

Iau 15

PENISARWAUN: 'Sêl Ionawr' yn Neuadd yr Eglwys am 6.00. Yr elw er budd Eisteddfod y pentref.

Gwener 16

BETHEL: Pwyllgor Apêl y Sganiwr

DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00

Gwener 23

WAUNFAWR: Merched y Wawr - sgwrs gan Mr Norman Williams ar ei waith fel awdur a chynhyrchydd teledu

DEINIOLEN: Cyfarfod Cyffredinol

Atebion "Digwyddiadau'r Flwyddyn ym Mro'r Eco"

1. Clwb Ieuencid Cwm-y-Glo.

2. Malcolm Allen o Ddeiniolen.

3. Telor Hedd Iwan o'r Waunfawr a fu'n llwyddiannus mewn cystadleuaeth ar "Helo Bobol", pan ysgrifennodd hanes taith ar Gomed Haley.

3. Cwmni'r Frân Wen - enw'r perfformiad oedd "Eliffantod Mawr".

5. Tîm Pêl-droed dan 12 oed Llanrug - ar ôl rhoi cweir i dîm Bontnewydd!

6. Injan a gafodd ei harddangos yn y Gilfach Ddu. Fe'i hadeiladwyd yng Nghaernarfon ym 1877.

7. Râs Antur Waunfawr - o'r Ganolfan i Fwlch y Groes ac yn ôl.

Blynyddol Eisteddfod Gwaun Gynfi yn Neuadd y Ganolfan am 7.00

Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00

LLANBERIS: Te yr Henoed

Llun 26

PENISARWAUN: Noson 'Santes Dwynwen' yn Neuadd yr Eglwys am 6.30

8. Ffatri'r Glyn, Llanberis yn cau - ond ail-sefydlwyd y gwaith yng Nghaernarfon yn ddiweddarach.

9. Y râs rhwng Penisarwaun a Llanberis yn y Ffug Eisteddfod - a Phenisarwaun yn ben-ffyliaid unwaith eto!

10. Ffilm ar doddyddion a chyffuriau a ddangoswyd i ddisgyblion dosbarthiadau 5 a 6 Ysgol Brynrefail.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r "Eco".

£5: Mrs Buddug Jones, 8 New Street, Deiniolen.

Jenny Williams, Caernarfon.

£2: Di-enw, Llanrug

Mrs E Williams, 2 Y Bwthyn, Deiniolen.

Joyce a Gwyn Pritchard, 9 Ffordd Hampton, Caernarfon.

Tracey a Joe Demiscei, Malta

Kelvin ac Ann Jones, 26 Stryd Newton, Llanberis.

£1: Mr Alan Roberts, Penygroes.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Nadolig Llawn
i Bawb

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

MAE ESTYNIAD NEWYDD

CARTREF PRESWYL HENOED

BRON ERYRI

LLANBERIS, Ffôn: 870142 neu 870391

AR FIN AGOR

- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Liffat at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y llofftiau
- Bath-medic

Ymholiadau i Mr a Mrs A.W. Hughes (perchnogion)
neu Mrs Eirian Mali S.R.N. (Metron)

AELWYD GARTREFOL

Cofrestrwyd gan
Adran Gwasanaethau
Cymdeithasol Gwynedd

CHWARAEON

ANFARWOLDEB I'R LOCOS

Tynnwyd fy sylw y dydd o'r blaen at bwt a ymddangosodd yn y 'Guardian', Sadwrn y 6ed o Ragfyr. Rhyw sais o Ddraenog, mi dybiaf, sy'n ceisio cosi dychymyg y genedl, ac chan nad oedd syniad gan nifer o'r rhai y dangosais y gwreiddiol iddynt am beth roedd yn sôn, cynigias gyfieithiad rhydd o'r cynnwys.

Mae Paul Stump, o Newport, Gwent heb fod iddo reswm o gwbl am wneud hynny, yn awgrymu ei bod yn hen bryd i rhywun roi cyhoeddusrwydd i'r clwb â'r enw rhyfeddaf ym Mhyrdain. (Britain's most bizarrely named club) — rhywbeth ar linellau PSV Pirbright, Spartak, Ormskirk neu Borussia Bury St. Edmunds. Mae Paul am wthio'r cwch i'r dŵr gyda 'Lokomotive Llanberis FC of North Wales'. Bydd unrhyw wybodaeth pellach yn cael ei ymdrin ag ef yn y modd mwyaf cyfrinachol.

i a all draenog yr Eco wella ar gynnig Mr Stump, ynteu a oes rhai o'i ddarlennwyr â syniad. 'Rwyn derbyn nad oes y fath bethâ chyhoeddusrwydd drwg, ond ai dyma'r modd yn anfarwolir Llanber? Dewch — mae'n rhaid i ni feddwl am enw rhyfeddach!

PÊL-DROED

Pnawn Sadwrn digon llwm fu'r trydydd ar ddeg o'r mis i fwyaf o ddilynwyr pêl-droed yr ardal, gan mai yn Llanberis yn unig y gwelwyd chwarae. Y glaw trwm fu'n gyfrifol, gan olchi i ffwrdd unrhyw obaith am gêm gynghrair ym Methel yn erbyn Llanbedrog, a'r gêm Grŵp A am Darian Eryri, rhwng Llanrug a Phrifysgol Bangor. Nid oedd gêm wedi ei threfnu ar gyfer ail dim Llanrug yng Nghynghrair Sain.

Manteisiodd Llanberis ar eu cyfle, gan gadarnhau eu safle ar gopa Grŵp B y Darian, ac mae'n anodd gweld bellach sut na fydd iddynt symud ymlaen i'r rownd gyn-drefnol. Yr ymwelwyr oedd Conwy, a'u hanrheg Nadolig y grasfa fwyaf yn hanes y gystadleuaeth: unarddeg gôl i ddim. Steven Williams oedd y brif ddraenen yn eu hystlys gan sgorio bedair gwaith, Bryn Williams yn cael dwy, ac yna Gareth W Jones, Gareth Pritchard Jones, Terence Griffiths a Peter Roberts yn cael un yr un.

Rhwyddodd un o'r castellwyr heibio ei

gôl geidwad ei hun am y gôl arall.

Mae Llanrug hwythau ar frig Grŵp A yng nghystadleuaeth y darian, ac hefyd ar ben tabl cynghrair Gwynedd gydag 11 pwynt ar ôl 6 gêm. Pwynt nghanol y tabl mae Llanberis, 7 pwynt ar ôl chwarae pedair gwaith.

Mae ail dim Llanrug yn drydydd yng Nghynghrair Sain, ond parhau'r drydydd o'r gwaelod mae Bethel. Colli fu hanes y ddau yng Nghwpan Iau Gogledd Cymru ar y 6ed, Bethel ym Moun-tain Rangers a Llanrug yn Abbey Life, Rhyl.

CODI PWYSAU

Flwyddyn yn ôl, 'doedd gan Arwel Jones ddim mwy o ddiddordeb mewn codi pwysau na'r un bachgen arall 13eg oed o Fethel. Bellach mae'n Bencampwr Cymru a Phrydain yn y dosbarth dan 14eg oed.

Darganfyddodd fod peth gallu ganddo tra'n arbrofi â'r pwysau mewn gwrs Ymarfer Corff yn Ysgol Brynrefail, ac aeth ati ar ei union i ymuno â Chlwb Codi Pwysau Llanrug, i gael ei hyfforddi yno gan Ieuan Owen o Gaernarfon, enillydd medalau lu yn ei ddydd, gan gynnwys Pencampwriaeth Chwaraeon y Gymanwlad. Fe'i gwelir yn ymarfer deirgwaith yr wythnos, ac nid yw'n waith hawdd chwaith, fel y gwelir yn y llun isod.

Yn un o'i gystadleuthau cyntaf, ar ôl dau fis yn unig o'i hyfforddi gan Ieuan, daeth yn fuddugol ym Mhencampwriaethau dan 14eg Cymru, ac



SGÏO

Pencampwriaethau Ysgolion Prydain ar lethr sych

Llwyddodd tîm Ysgol Brynrefail i dorri tir newydd yng Nghaeredin ar y 7fed o'r mis gan ddod yn ail drwy Brydain, a phan ystyrir na llwyddodd yr un tîm o du allan i'r Alban i ddod i'r tri safle cyntaf o'r blaen, gellir gwerthfawrogi'r gamp.

Bu 36 o dimau'n cystadlu, y cyfan wedi eu dewis o ganlyniad llwyddiant yn eu Pencampwriaethau Cenedlaethol eu hunain. Fe gofiwch yr adroddiad mewn rhifyn diweddar o'r Eco am y gystadleuaeth ym Mhontypwl ym mis Medi, lle dewiswyd dau dîm o'r ysgol ymysg cynrychiolwyr y wlad. Y timau eraill o Gymru oedd Ysgolion David Hughes (Porthaethwy), Caerleon, Cwm Rhymni, Pontllanffraith a Glan Tâf, Caerdydd.

Fe benderfynnir sawl tîm a gaiff gystadlu dros unrhyw wlad ar sail llwyddiant y wlad honno yn y gorfennol. Roedd saith tîm o Gymru, saith hefyd o Loegr, tri o Ogledd Iwerddon a phedwar ar bymtheg o'r Alban.

Pedwar aelod sydd i bob tîm, a dau bâr o frodyr oedd aelodau hwnnw y bu bron iawn iddo ddod i'r brig. O Allt Ddu, Dinorwig y daw Matthew a Phillip Ingle, ac yn y Waunfawr mae cartref Michael a Steven Wore, meibion yr athrawes sy'n gyfrifol am sgïo yn yr ysgol.

Michael oedd y gorau o holl hogiau Cymru, ac yn drydydd drwy Brydain — hyn yn rhoi'r hawl iddo alw ei hun yn Bencampwr Ysgolion Cymru am eleni. Daeth Phillip yn ail drwy Gymru (ac yn 4ydd drwy Brydain) a Matthew yn drydydd (5ed drwy Brydain).

Ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf

byddant yn symud oddiar y llethr sych ac yn teithio i Glenshee, eto yn yr Alban ar gyfer Pencampwriaethau Ysgolion Prydain ar y llethrau eira.



Matthew a Phillip Ingle yn sefyll y tu ôl i Steven a Michael Wroe.

ennill fu ei hanes byth er hynny. Yn gynharach yn y flwyddyn, fel yr adroddwyd eisoes yn yr Eco, daeth hefyd yn bencampwr Prydain.

Ym mis Tachwedd, bu'n cynrychioli ei wlad am y tro cyntaf mewn cystadleuaeth yn erbyn bechgyn o Ffrainc, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg yn y wlad honno, a sicrhodd glod uchel iddo ei hun.

Ar y 6ed o Ragfyr daeth y cyfle iddo yng Nghaerdydd i danlinellu ei oruchafiaeth, gan gipio'r teitl dan 14eg am yr eilwaith. Cododd 77kg yn 'Clean and Jerk' ac er fod ei 55kg yn y 'Snatch' 10kg yn llai na'i orau, 'roedd yn llawer gwell nag y gallai yr un o'i wrthwynebwyr ei gynnig.

Yn y dyfodol agos bydd Arwel yn cystadlu yn Amlwch, ac am Bencampwriaeth dan 18 oed yng Nghaerdydd. Yna ym mis Mawrth,

ym Mhencampwriaethau Prydain dan 16eg oed yn Rhydychen.

Pob lwc iddo, gobeithiwn nodi ei llwyddiant yn un o rifynnau'r Gwanwyn.



Arwel yn codi 77kg yn y 'Clean and Jerk' ym Mhencampwriaeth Cymru yng Nghaerdydd.

PÊL-DROED CYNRYCHIOLI YSGOLION ARFON

Mae tri o fechgyn Ysgol Brynrefail yn aelodau o garfan y tîm hyn, sef Dafydd M Jones, Penisarwaun, ynghyd ag Andrew Griffiths a Jason Roberts o Lanberis. Fe chwaraewyd gêm gynta'r tymor yn erbyn Ysgolion Aberconwy ar dir Ysgol Syr Hugh Owen, ddydd Mawrth, y 10fed o'r mis — un gôl yr un oedd y

sgôr.

Aelod o'r tîm dan 15 oed yw Dafydd Llywelyn o Fethel. Gwelwyd gêm gyffrous iawn rhyngddynt ag Ysgolion Môn yn Ysgol Brynrefail, gyda'r ynyswyr yn arwain o ddwy gôl i ddim yn fuan yn y gêm. Llwyddodd y bechgyn lleol i daro'n ôl, ac ennill o 5 gôl i 4 fu eu hanes.

Cofiwch am y gêm fawr — Llanberis yn erbyn Llanrug yn Llanber ar Ragfyr 27ain. "Darbi" gynta'r tymor, a'r gyntaf erioed yng Nghynghrair Gwynedd. Siawns ardderchog i gael ychydig o awyr iach ar ôl holl wleda'r Nadolig.